

CYMRAEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Adroddiad blynyddol 2020-21

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2020-21

Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartion eraill â diddordeb.

Trosolwg

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, lansiwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017, wedi i'r strategaeth flaenorol dynnu i'w therfyn.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

 [@Cymraeg](https://twitter.com/Cymraeg)

 [Facebook/Cymraeg](https://www.facebook.com/Cymraeg)

Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/y-gymraeg

Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2021 i 2026* (2021); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050* (2017); *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21* (2017)

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyd-destun – Cymraeg 2050	4
Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	5
Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg	39
Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun	53
Casgliad	73

Rhagair y Gweinidog

Dyma'r tro cyntaf i mi gyflwyno'r adroddiad blynyddol ar ein strategaeth iaith, [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#) fel Gweinidog y Gymraeg ac Addysg. Dyma'r pedwerydd tro i ni adrodd ar ein cynnydd, ac mae'r adroddiad hwn yn gyfle i edrych yn ôl ar flwyddyn ariannol 2020-21, sef blwyddyn olaf gweithredu'r Llywodraeth flaenorol.

Bu'n flwyddyn heriol i bawb, gyda COVID-19 yn bresennol drwy gydol ein blwyddyn adrodd, a phob un ohonon ni'n gorfod dysgu i addasu ein ffordd o fyw – gartref, yn y gwaith ac yn ein cymunedau. Ac oherwydd hyn, bu peth newid i'n trefniadau arferol o gasglu a chyhoeddi data, a dyna pam fod oedi wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn eleni.

Yn naturiol, mae ein hymateb i'r pandemig a'i effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn ganolog i'r adroddiad eleni, ac mae prif elfennau strategaeth Cymraeg 2050 i'w gweld yn glir, wrth i ni barhau i gydweithio'n eang i greu dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg a chyfle i gymaint o bobl â phosib ym mhob rhan o'r wlad fwynhau ei dysgu a'i defnyddio'n fwy hyderus nag erioed o'r blaen.

O'r blynyddoedd cynnar, drwy ddarpariaeth addysg statudol, i addysg ôl-orfodol a Chymraeg i oedolion, yn ogystal â chynlluniau a phrosiectau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob grŵp oedran, parhau wnaeth ein gwaith ni a'n partneriaid, er i'r pandemig, ac yn wir gadael yr Undeb Ewropeaidd, effeithio'n fawr ar y byd o'n cwrpas

Wrth gwrs, mae ein prosiectau ar y Gymraeg, fel y rhan fwyaf o waith y Llywodraeth, wedi wynebu heriau oherwydd COVID-19. A chyda phob her, daeth cyfle i arbrofi ac arloesi, ac i edrych ar bethau mewn ffordd wahanol. Rwy'n hynod falch o gyflwyno'r ystod a'r amrywiaeth o waith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, nid yn unig yma yn Llywodraeth Cymru, ond hefyd gan ein partneriaid, gan grwpiau ac unigolion ym mhob rhan o Gymru.

Bu'n rhaid gohirio Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn eu lle, cawsom gyfle i fwynhau Eisteddfod T ac Eisteddfod AmGen – dwy ŵyl a wnaeth gymaint i dynnu'r genedl ynghyd a chodi ein calonnau. Gweithiodd fformat gwahanol ein gwyliau'n arbennig o dda, gan ddenu cynulleidfaoedd a chystadleuwyr newydd sbon.

Bu cyfraniad gwirfoddol Merched y Wawr a'r Ffermwyr Ifanc yn eu cymunedau ar draws Cymru yn rhagorol, a llwyddodd y mentrau iaith hefyd i gynnal pob math o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar-lein. Cafodd holl arlwy dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei symud ar-lein, gyda mwy o ddysgwyr yn cofrestru ar gyfer cyrsiau blasu ar-lein y Ganolfan yn ystod y cyfnod hwn na'r tair blynedd cyn hynny gyda'i gilydd.

Mae'n rhaid i mi ddiolch i'n holl bartneriaid am eu gwaith di-flino, am eu hagwedd gadarnhaol, eu parodrwydd i addasu'n barhaus ac am eu hawydd i

barhau i gyflawni, drwy gydol y pandemig. Parhau wnaeth ein gwaith polisi mwy strategol ni fel Llywodraeth hefyd yn ystod y flwyddyn adrodd wrth i ni:

- Ymgynghori ac yna cyhoeddi polisi terfynol ar Drosoglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd¹.
- Ymgynghori ar bolisi cenedlaethol Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg².
- Ymgynghori ar gynigion i gyflwyno categorïau newydd i ddisgrifio ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg³.
- Cynnal arolwg i edrych ar sut wnaeth y pandemig effeithio ar grwpiau a mudiadau cymunedol Cymraeg⁴.

Ond, mae sawl maes yn parhau'n anodd, fel recriwtio digon o athrawon i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu gynnal hyder pobl ifanc yn eu Cymraeg ar ôl iddyn nhw adael addysg orfodol.

Dangosodd y pandemig, ac yn wir gadael yr Undeb Ewropeaidd pa mor fregus yw ein heconomi a'n stoc dai mewn ardaloedd o Gymru sy'n cynnwys cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Rydyn ni wrthi'n ymateb i'r heriau hyn gan gydweithio ar draws y Llywodraeth, gyda'n partneriaid a chymunedau ar hyd a lled ein gwlad.

Wrth gwrs, mae cyd-destun ein gwaith wedi gorfod newid ers lansio *Cymraeg 2050* yn 2017, ac rwy'n falch iawn o'r cyfle i arwain ein hymdrech ni i barhau â'r daith tuag at y miliwn. Mae'r gwaith caled a'r arloesi a ddaeth yn sgil y pandemig i'w weld yn glir yng nghorff ein hadroddiad, ac mae ein Rhaglen Waith newydd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021 yn rhan allweddol o'n hymdrech i gwrdd â'r nod llesiant cenedlaethol o weld y Gymraeg yn ffynnu.

Byddwn yn craffu ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021 yn nes ymlaen eleni, ac yn addasu ein targedau a'n ffyrdd o weithio yn ôl y gofyn.

Mae ein gweledigaeth ni'n un eangfrydig a chynhwysol. Rydyn ni eisiau creu dinasyddion dwyieithog sy'n hyderus i ddefnyddio Cymraeg ym mhob rhan o fywyd bob dydd. Yn syml, rydyn ni am i bawb yng Nghymru deimlo bod yr iaith yn *perthyn* i bob un ohonon ni.

1 Mawrth 2022

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisi-cenedlaethol-ar-drosoglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd.pdf>

² <https://llyw.cymru/polisi-cenedlaethol-seilwaith-ieithyddol-y-gymraeg>

³ <https://llyw.cymru/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg>

⁴ <https://llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg>

Cyd-destun – Cymraeg 2050

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr yw ein strategaeth iaith Gymraeg. Mae ganddi ddau brif darged sef:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013-15) i 20% erbyn 2050.

Ar ôl pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) gyhoeddi adroddiad ar sut y cafodd y strategaeth iaith ei rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar flwyddyn ariannol 2020-21, ac yn cynnwys manylion ar ein cynnydd o dan dair thema strategaeth *Cymraeg 2050*:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Roedd ein Rhaglen Waith gyntaf ar gyfer 2017-21 yn canolbwyntio ar osod seiliau cadarn yn ystod y blynyddoedd cychwynnol. Mae gosod y seiliau ar gychwyn y cyfnod yn gwbl angenrheidiol er mwyn cynnal camau pellach i weithredu'r strategaeth.

Tarodd COVID-19 ar ganol blwyddyn olaf y cyfnod "gosod seiliau" ac mae Rhaglen Waith 2021-26 felly'n cydnabod yr heriau y mae COVID-19 ac yn wir gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi'u cyflwyno i'r gwaith o weithredu *Cymraeg 2050*. Heb os, mae'r digwyddiadau hyn wedi effeithio ar weithredu *Cymraeg 2050*, ond er hynny, ceir arwyddion calonogol ac mae'r rheiny wedi eu bwydo'n rhan o ail Raglen Waith *Cymraeg 2050*.

Drwy gadw llygad ar y cyd-destun ac ar sut y mae rhaid addasu polisïau, ac ymateb yn rhagweithiol i'r newidiadau hynny, byddwn yn sicrhau nad ydym yn colli ffocws ar ein gweledigaeth o ddyblu defnydd dyddiol o'r iaith a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.


Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?

Rydym yn defnyddio'r cyfrifiad er mwyn monitro ein cynnydd tuag at y miliwn. Cafodd Cyfrifiad 2021 ei gynnal ym mis Mawrth 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Roedd Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 562,000 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg, neu 19.0% o'r boblogaeth. Mae disgwyl i'r ONS gyhoeddi holl ganlyniadau Cyfrifiad 2021 rhwng gwanwyn 2022 a gwanwyn 2023. Pan gaiff y canlyniadau eu cyhoeddi, byddwn yn eu dadansoddi'n fanwl ac yn diweddarau'r taflwybr i gyrraedd y miliwn a gyhoeddwyd fel rhan o strategaeth *Cymraeg 2050* ac yn adolygu ein blaenoriaethau yn ôl y galw.

Gan mai dim ond bob deng mlynedd y cynhelir y cyfrifiad, rydym yn defnyddio Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yr ONS er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg.

Siart 1: Nifer y bobl tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, o 2001 i fis Mawrth 2021



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r cyfrifiad poblogaeth.

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, felly, roedd 883,300 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, neu 29.1% o'r boblogaeth.⁵

⁵ Mae'r ffigurau diweddaraf ar gael yma: [Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth | LLYW.CYMRU](#)

Mae ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dueddol o fod yn uwch o lawer na ffigurau'r cyfrifiad, ond maent yn ddefnyddiol er mwyn gweld patrymau neu dueddiadau yn nifer y siaradwyr.

Er bod ffigurau Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn, gallwn weld fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi bod yn cynyddu'n raddol bob blwyddyn ers mis Mawrth 2010, wedi iddynt ostwng yn raddol o 2001 i 2007. Fe wnaeth nifer y bobl sy'n adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ostwng rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Mawrth 2020, cyn cynyddu eto wedi hynny. Fodd bynnag, rhaid trin y cynnydd hwn â gofal gan fod COVID-19 wedi golygu bod rhaid newid y ffordd yr oedd yr arolwg yn cael ei gynnal o ganol mis Mawrth 2020 ymlaen.

1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

Polisi Cenedlaethol ar gyfer Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd

Rhwng mis Chwefror a Medi 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein polisi drafft ar gyfer Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd. Cyhoeddwyd ein polisi terfynol ar 26 Ionawr 2021. Mae'r polisi yn seiliedig ar ymrwymiad *Cymraeg 2050*, canfyddiadau ymchwil academaidd y gwnaethom ni ei gomisiynu ym maes trosglwyddo'r Gymraeg (2017), a gwerthusiad o raglen Cymraeg i Blant (Chwefror 2019), ac wrth gwrs, yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Nod y polisi yw galluogi'r teuluoedd hynny lle mae gallu eisoes i ddefnyddio'r Gymraeg – er efallai nad yw'r gallu hwnnw ar waith – ddefnyddio pa bynnag Gymraeg sydd ganddynt gyda'u plant. Byddwn yn gweithio i ailgynnu sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddihyder eu sgiliau iaith, er mwyn eu hannog i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.

Mae'r polisi'n diweddarau'n ffordd ni o ymwneud â throsglwyddo iaith ac yn gosod rhaglen waith a fydd yn para degawd. Mae ein profiad o weithio yn y maes, ein sgysiau â sefydliadau partner, yn ogystal â'r ymgynghoriad (a oedd yn cynnwys sgysiau manwl gyda rhieni) eto'n atgyfnerthu'r angen i dalu sylw penodol i:

- Gefnogi ac annog defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant.
- Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.

Mae llawer o waith wedi'i wneud yn barod ym maes trosglwyddo yng Nghymru, ac mae'r polisi'n adeiladu ar waith da Twf a Cymraeg i Blant⁶.

⁶ <https://llyw.cymru/cymraeg-i-blant>

Mae Cymraeg i Blant yn gynllun cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi rhieni i ddefnyddio Cymraeg gyda'u plant, ac i ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Gwneir hyn drwy gyfres o sesiynau am ddim i rieni a'u plant.

Yn ystod 2020-21, fe wnaeth gwaith Cymraeg i Blant barhau er bod yn rhaid dod â'r sesiynau cefnogi wyneb yn wyneb i ben ar gychwyn y cyfnod clo cyntaf. Datblygwyd model cefnogi ar-lein, ac er gwaethaf y pandemig cyflwynwyd bron i 4,000 o sesiynau cymorth byw i dros 7,000 o rieni a 4,000 o blant, yn ogystal â dros 3,700 o sesiynau cymorth wedi'u recordio. Mae'r ddarpariaeth ddigidol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r gefnogaeth a gaiff ei chynnig drwy'r rhaglen erbyn hyn.

Data Trosglwyddo Iaith

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 82% o blant tair i bedair oed yn gallu siarad Cymraeg ar yr aelwydydd pâr hynny lle roedd dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 45% o blant tair i bedair oed yn gallu siarad Cymraeg ar aelwydydd pâr lle roedd un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. Dyna pam y mae helpu mwy o rieni a gofalu i drosglwyddo ein hiaith i'w plant yn un o flaenoriaethau allweddol strategaeth *Cymraeg 2050*.

Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn rhoi diweddariad i ni ar y data trosglwyddo hwn. Mae data mwy diweddar ar gael o Arolwg Defnydd Iaith 2019-20, sy'n nodi ble yn bennaf y mae siaradwyr Cymraeg wedi dechrau dysgu'r iaith. Yn ôl y data hwn, roedd:

- 43% wedi dechrau dysgu Cymraeg gartref yn blant ifanc. Roedd amrywiaeth sylweddol o ran pa bryd y dechreuodd siaradwyr Cymraeg ddysgu i siarad yr iaith yn ôl oedran, gyda'r rhai 3 i 15 oed yn llawer llai tebygol na'r rhai 65 oed neu hŷn o fod wedi dechrau dysgu Cymraeg gartref yn blant ifanc.
- 31% o siaradwyr Cymraeg 3 i 15 oed wedi dysgu siarad yr iaith gartref yn blant ifanc, o'i gymharu â 69% o siaradwyr Cymraeg 65 neu hŷn.

Dangosodd yr Arolwg Defnydd Iaith hefyd fod y rhai sydd wedi dechrau dysgu'r Gymraeg gartref yn blant ifanc yn llawer mwy tebygol o siarad ein hiaith bob dydd, ac yn llawer mwy tebygol o fod yn rhugl o gymharu â'r rheiny sydd wedi dechrau dysgu Cymraeg yn yr ysgol, neu fel oedolyn, neu'n rhywle arall.

Cyhoeddwyd Bwletin Ystadegol⁷ ar 28 Ebrill 2020 a oedd yn cyflwyno canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 o safbwynt ble a phryd yr oedd pobl wedi dysgu Cymraeg.

Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

⁷ Y Bwletin Ystadegol: <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau>

- Roedd 75% o'r rheiny a ddysgodd Gymraeg yn y cartref yn disgrifio eu hunain fel siaradwyr rhugl, o'u cymharu â 6% o'r rheiny a ddysgodd Gymraeg yn yr ysgol uwchradd.
- Roedd 82% o blant sy'n siarad Cymraeg ar aelwydydd lle'r oedd y ddau riant yn gallu siarad Cymraeg wedi dysgu siarad Cymraeg yn y cartref fel plentyn ifanc.
- Lle'r oedd y rhieni wedi dysgu Cymraeg yn y cartref fel plant ifanc, roedd 82% o'u plant hefyd wedi dysgu Cymraeg yn y cartref.

2. Y blynyddoedd cynnar

Ein nod yw ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o greu 150 yn fwy o Gylchoedd Meithrin erbyn 2027-28. Fel rhan o'r targed hwn, roedd 43 Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg newydd wedi'u sefydlu erbyn 2021, sy'n fwy na'r targed o 40 a osodwyd.

Yn ystod 2020-21, mae Mudiad Meithrin wedi llwyddo i sefydlu Cylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd â diffyg darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Bydd 12 grŵp arall yn cael eu sefydlu yn ystod 2021-22, mae hyn yn rhan o darged ehangach i agor 60 darpariaeth dros y bum mlynedd nesaf.

Yn ogystal â'r model traddodiadol o Gylch Meithrin, mae Cylchoedd wedi'u sefydlu mewn meithrinfeydd dydd cyfrwng Saesneg a Chylchoedd wedi'u sefydlu lle roedd darpariaeth *playgroup* cyfrwng Saesneg hefyd yn bodoli. Mae natur rhai o'r grwpiau newydd a sefydlwyd yn galluogi sesiynau Cylch Meithrin i gael eu cynnig mewn meithrinfeydd dydd cyfrwng Saesneg, gyda'r staff yn y lleoliadau hynny'n cael eu cefnogi drwy raglen hyfforddi trochi iaith Mudiad Meithrin, 'Croesi'r Bont'⁸.

Mae cefnogaeth yn parhau i ddatblygu capasiti cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector gofal plant, gan adeiladu ar y gefnogaeth y mae Cwlwm⁹ (consortium o bum sefydliad ym meysydd gofal plant a chwarae) yn ei gynnig i'w aelodau er mwyn ehangu gwasanaethau a sicrhau eu bod yn hunangynhaliol.

Er mwyn hwyluso'r dilyniant rhwng Cylchoedd Meithrin Cymraeg ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg, drwy'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), mae Mudiad Meithrin wedi parhau i gydweithio gydag awdurdodau a darparwyr lleol i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar. Casglwyd gwybodaeth gynhwysfawr gan Mudiad Meithrin am nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin a'u taith ymlaen i addysg statudol, a'i rhannu gydag awdurdodau lleol er mwyn eu cefnogi gyda'u prosesau cynllunio.

⁸ <https://meithrin.cymru/hyfforddiant/croesi-r-bont/>

⁹ [Welcome to Cwlwm | cwlwm](#)


Mae nifer y plant a fynychodd Gylchoedd Meithrin, a chanran y rheiny sydd wedyn yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, wedi gweld cynnydd yn gyffredinol ers 2005. Bu gostyngiad yn y niferoedd a oedd yn mynychu a'r niferoedd a oedd yn trosglwyddo yn 2019-20 ond mae'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer 2020-21 yn dangos cynnydd (gweler siartiau 2a a 2b isod).

Rydym yn tybio mai effaith y pandemig sy'n gyfrifol am y gostyngiad hwn yn ystod 2019-20, am i nifer o Gylchoedd Meithrin fod ar gau yn ystod y cyfnod clo cyntaf rhwng mis Mawrth 2020 a diwedd tymor yr haf. Mae hyn yn golygu bod nifer o blant wedi methu â chychwyn yn y Cylch yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn hefyd wedi effeithio ar y gallu i olrhain nifer y plant a oedd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg.

Er bod y cylchoedd wedi gofod cau oherwydd cyfyngiadau COVID-19, mae'n galonogol nodi fod pob un wedi ailagor ers hynny ac felly mae'r seilwaith yn gadarn er mwyn ail adeiladu yn ôl dros y pum mlynedd nesaf.


I edrych ar y cyd-destun ehangach, mae'n bwysig nodi hefyd bod nifer plant y boblogaeth yn gyffredinol wedi bod yn gostwng yn ystod y blyneddau diwethaf.

Siart 2a: Nifer y plant sydd wedi mynychu Cylchoedd Meithrin



Ffynhonnell: Data Mudiad Meithrin

Siart 2b: Canran y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg



Ffynhonnell: Data Mudiad Meithrin

Cafodd y Cynnig Gofal Plant¹⁰ i newydd-ddyfodiaid ei ohirio rhwng Ebrill a Medi 2020 am fod lleoliadau gofal plant wedi gorfod cau yn ystod y pandemig, ond ail-agorodd y Cynnig ar gyfer ceisiadau yn ystod haf 2020. Roedd ychydig dros 14,000 o blant yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant ym mis Mawrth 2021, gyda tua 33% ohonynt yn cyrchu'r Cynnig mewn lleoliadau Cymraeg neu ddwyieithog.

Oherwydd y pandemig, yn gyffredinol, rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, cafodd gwasanaethau gofal i blant eu cyfyngu i blant gweithwyr hanfodol a phlant bregus. O ddiwedd mis Mehefin 2020, wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio, dechreuodd darparwyr gofal plant gynyddu eu darpariaeth eto.

Roedd *Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws* yn weithredol rhwng Ebrill ac Awst 2020, gan ariannu gofal i blant gweithwyr hanfodol a phlant bregus. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ddiwedd Mawrth 2020, fe wnaethom ni ddechrau gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, consortiwm Cwlm, a rhanddeiliaid allweddol eraill i geisio deall effaith COVID-19 ar y sector gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd y gwaith hwn yn parhau er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir yn parhau i ymateb i heriau penodol y sector hwn.

Canfu *Gwerthusiad o'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn ystod y Coronafeirws*¹¹ fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn llai yn ystod cyfyngiadau COVID-19, gyda chyfran uchel o'r ddarpariaeth sesiynol Cymraeg yn parhau ar gau, yn aml o ganlyniad i fethu â chael mynediad at eu safle arferol. Pan oedd y sefyllfa iechyd cyhoeddus yn caniatáu hynny, symudodd Llywodraeth Cymru yn gyflym i ailagor gofal plant, gan ddarparu canllawiau ar sut y gallai lleoliadau gadw plant a staff yn ddiogel, er mwyn lliniaru unrhyw effaith anghymesur ar rai rhannau o'r sector, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd plant cymwys hefyd yn gallu cael mynediad at y Cynnig Gofal Plant eto o ddechrau tymor yr hydref, 2020.

Canfu'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, *Credoau rhieni, eu hymddygiadau a'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu: gofal plant ac addysg gynnar*¹² (astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio ar benderfyniadau rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar) fod galw heb ei ddiwallu am addysg a gofal plant cynnar cyfrwng Cymraeg mewn rhai rhannau o Gymru.

Nod y gwaith hwn oedd adnabod faint o alw oedd yna ymysg teuluoedd am wasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y Cynnig. O ganlyniad, aeth awdurdodau lleol ati i ystyried sut i wella cynaliadwyedd a thwf yn y sector. Yn sgil hynny, cynhaliwyd gwaith i godi ymwybyddiaeth rhieni o'r dewisiadau iaith sydd ar gael iddynt wrth ddewis gofal plant.

¹⁰ <https://llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-ymgyrch>

¹¹ <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gynllun-cymorth-gofal-plant-y-coronafeirws>

¹² <https://llyw.cymru/credoau-rhieni-eu-hymddygiadau-ar-rhwystrau-y-maen-nhwn-eu-hwynebu-gofal-plant-ac-addysg-gynnar>

Mae awdurdodau lleol wedi parhau i dderbyn cyllid o dan grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru i'w helpu i gynyddu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd. Yn ystod 2020-21, darparwyd cyllid ychwanegol o £1.2m i gonsortïwm Cwlwm a £5.3m i awdurdodau lleol i helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau a'u bod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys cyllid i gefnogi gweithlu cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael.

Mae'r gwaith o gefnogi darparwyr gofal plant i gryfhau ac ymestyn eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg wedi parhau. Drwy ein gwaith gyda Mudiad Meithrin, rydym wedi:

- Cyrraedd y targed o sefydlu 40 Cylch newydd mewn ardaloedd o angen ledled Cymru yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Cynnig hyfforddiant i dros 2,700 o ymarferwyr a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru drwy raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus 'Academi'.
- Cynnig prentisiaethau mewn gofal plant i 60 o unigolion drwy gynllun prentisiaethau Mudiad Meithrin ac Urdd Gobaith Cymru.
- Parhau i gefnogi rhieni a'u plant ifanc drwy raglen Cymraeg i Blant er gwaethaf y pandemig.
- Cryfhau'r cyswllt rhwng y Mudiad ac awdurdodau lleol yn sgil gofynion newydd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Parhau i gydweithio gyda darparwyr a phartneriaid eraill er mwyn cynyddu cyfran y plant sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Ymestyn cyrhaeddiad rhaglen hyfforddiant 'Croesi'r Bont', sy'n ffocysu ar gaffael iaith a throchi ac arfogi ymarferwyr â sgiliau arbenigol i'w defnyddio gyda phlant o gartrefi di-Gymraeg.

Drwy gydweithio gyda chonsortïwm Cwlwm dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd cyfleoedd i ymarferwyr gofal plant ddatblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gwaith, a hynny drwy raglen 'Camau' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Drwy hyn, cafodd dros 650 o ymarferwyr hyfforddiant wedi ei deilwra'n arbennig i anghenion y sector gofal plant a chwarae.

3. Addysg statudol


Cyhoeddwyd *Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun gweithredu 2017-21*¹³ ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r cynllun, a oedd wedi parhau'n weithredol yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn nodi sut fydd y system addysg yn cyfrannu at ein nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. Serch hynny, rhaid cydnabod yr heriau sylweddol a oedd yn wynebu'r sector addysg yn ystod y cyfnod clo, ac na fu'n bosibl parhau gyda rhai agweddau o'r cynllun o'r herwydd.

Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn gosod targedau ar gyfer y maes addysg,

¹³ <https://llyw.cymru/cymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017-i-2021>

ac mae Y Gymraeg Mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017 i 2021 yn defnyddio dangosyddion i fonitro ein cynnydd yn erbyn y targedau hynny. Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y targedau a'r dangosyddion ill dau yn yr adran hon.

Siart 3: Canran disgyblion Blwyddyn 11 sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith)



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

Noder: O 2015/16, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Hyd at 2014/15, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Cafodd TGAU Cymraeg Ail iaith ei diwygio i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2017 gan ddisodli'r cyrsiau llawn a byr TGAU a fodolai, sy'n esbonio rhywfaint o'r cynnydd mewn Cymraeg ail iaith a welir yn y data.

Un o brif amcanion *Cymraeg 2050* yw gweld cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, gyda tharged o 70% o ddysgwyr yn gadael ysgol yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 33% o ddysgwyr 16-17 oed yn gallu siarad Cymraeg – dyma'n gwaelodlin felly.

Mae cynnydd wedi bod yng nghanran y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith (cwrw llawn) ers 2008/09, fel y gwelir yn Siart 3.

Mae Siart 3 yn dangos fod 86% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2020/21. Mae hyn wedi cynyddu dros y degawd diwethaf o 70% yn 2008/09.

Mae'r siart hefyd yn dangos fod gostyngiad wedi bod yn y ganran a oedd yn sefyll y cwrs byr ail iaith rhwng 2012/13 a 2017/18. Diddymwyd hwn ym mis Medi 2018, ac ers hynny, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y ganran sy'n cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs llawn). (Roedd y 2% a gofrestrodd ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith cwrs byr yn 2018/19 wedi sefyll yr arholiad ar ddiwedd Blwyddyn 10 y flwyddyn flaenorol).

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Pwrpas Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021¹⁴ yw sefydlu fframwaith deddfwriaethol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Yn y Ddeddf, mae'r Gymraeg yn faes cwricwlwm gorfodol i blant a phobl ifanc 3-16 oed. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Cynnydd sy'n nodi'r ffordd y mae'n rhaid adlewyrchu cynnydd mewn cwricwlwm mabwysiedig.

Fis Ionawr 2021, amlinellodd y Gweinidog Addysg ar y pryd, i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Fframwaith i gefnogi dysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Mae grŵp o ymarferwyr wedi bod wrthi'n cwblhau gwaith mapio yn seiliedig ar y Fframwaith Llythrennedd, disgrifiadau dysgu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg, a'r CEFR (*Common European Framework of Reference for Languages*).

Bydd y Fframwaith Cymraeg ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg ar gael fel canllawiau anstatudol, ac yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd y Cwricwlwm i Gymru¹⁵. Bydd hyn yn cynnig sylfaen ychwanegol i'r ysgolion sy'n chwilio am gefnogaeth i gyflwyno'r Gymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, a hynny heb rwystro gallu a chreadigrwydd athrawon eraill. Byddwn yn ymgynghori ar y fframwaith drafft yn 2022.

Y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd

Cyhoeddwyd drafft o'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Ebrill 2019 er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno adborth. Yn sgil yr adborth a ddaeth i law, mireiniwyd y cwricwlwm rhwng Medi a Rhagfyr 2019, a chyhoeddwyd y fersiwn derfynol, Cwricwlwm i Gymru ym mis Ionawr 2020.

Mae'r Gymraeg bellach yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad leithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu y cwricwlwm newydd. Bydd y Gymraeg yn parhau'n bwnc gorfodol i bob dysgwr 3-16 oed, gan gynnig hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod eu dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y Gymraeg.

¹⁴ <https://llyw.cymru/deddf-cwricwlwm-ac-asesu-cymru>

¹⁵ <https://llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-trosolwg>

Mae cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad yn seiliedig ar gysyniad o gontinwwm dysgu. Yn achos y Gymraeg, mae hyn yn golygu bod pob disgybl yn datblygu o fod yn ddi-iaith, neu gyda dim ond ychydig iaith, ac yn gwneud cynnydd tuag at fod yn ddysgwyr ac yn siaradwyr hyderus a llwyddiannus.

Yn ystod 2021, cynhaliwyd y Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol cyntaf ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r sgyrsiau hyn yn cynnwys ymarferwyr o bob rhan o Gymru, ac maen nhw'n ystyried y gefnogaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i wireddu'r cwricwlwm. Wrth inni symud tuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, byddwn yn mynd ymlaen i drafod cefnogaeth ar lefel Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd hyn yn cynnwys sgyrsiau ar y Gymraeg yn y cwricwlwm fel y gellir rhannu arbenigedd a dysgu a nodi'r blaenoriaethau sydd eu hangen i gefnogi'r proffesiwn.

Ymgynghorodd Cymwysterau Cymru, fel rhan o Cymwys ar gyfer o Dyfodol, ar ystod o gynigion ar gyfer cymwysterau iaith Gymraeg newydd i gefnogi y Cwricwlwm i Gymru.

Yn Chwefror 2022, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i gymwysterau Cymraeg er mwyn helpu mwy o ddysgwyr i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae'r rheoleiddiwr wedi bod yn adolygu'r cymwysterau sydd ar gael ar lefel TGAU i ddysgwyr sy'n astudio Cymraeg. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, mae wedi argymhell triawd o gymwysterau a fydd ar gael ar gyfer 2025.

Dyma'r newidiadau:

- Bydd Cymraeg iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn cael eu cyfuno'n un TGAU ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Bydd TGAU Cymraeg Ail iaith yn dod i ben, a bydd TGAU Cymraeg newydd yn cael ei greu ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.
- Cymhwyster ychwanegol newydd i ddisgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach."

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019¹⁶ i rym ar 1 Ionawr 2020, ynghyd â chanllawiau i gefnogi awdurdodau lleol baratoi ar 27 Ionawr 2021.

Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020¹⁷ i rym ar 1 Rhagfyr 2020, ac roeddent yn gwneud newidiadau sydd wedi arwain at symud dyddiad cychwyn y cylch

¹⁶ <https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg>

¹⁷ <https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg>

CSCA nesaf o 1 Medi 2021 i Fedi 2022.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio twf yn eu darpariaeth addysg Gymraeg dros gyfnod o 10 mlynedd, ar sail targed wedi'i gyfrifo gan Lywodraeth Cymru i gefnogi targedau *Cymraeg 2050*.

Mae'r awdurdodau lleol wedi cyflwyno eu Cynlluniau deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru ar 31 Ionawr 2022. Byddwn yn asesu'r cynlluniau drafft rhwng Chwefror a Mai, ac yn cadw mewn cysylltiad agos gyda'r awdurdodau yn ystod y broses fireinio cyn cynnig cymeradwyaeth. Y nod yw bod y Cynlluniau yn weithredol erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, ym Medi 2022.

Newid arall a gyflwynir yn y rheoliadau yw'r pwyslais ar gryfhau partneriaethau. Mae hyn yn cydnabod na ellir gweithredu cynlluniau CSCA heb gefnogaeth neu arbenigedd lleol a rhanbarthol. Cyflwynir canllawiau ar gydweithio a gweithredu drwy Fforymau Cynllunio Addysg Gymraeg yr awdurdodau lleol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd lleol.

Categoreiddio ysgolion

Ar 14 Rhagfyr 2020, fe wnaethom lansio ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno categorïau newydd i ddisgrifio ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg. Aethom ati i wneud hyn ar sail argymhelliad gan y Bwrdd Cyngori CSCA, a sefydlwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Brys ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017.¹⁸

Comisiynwyd gwaith i adolygu'r system gyfredol o gategoreiddio a chynnig opsiynau ar sut i gryfhau'r trefniadau presennol, fel bod mwy o ysgolion yn cael eu cefnogi i symud ar hyd y continwm drwy gynyddu eu darpariaeth o'r Gymraeg. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 26 Mawrth 2021.

Prif egwyddorion y polisi newydd yw symleiddio'r trefniadau categoreiddio fel bod modd i rieni / gofawyr wneud penderfyniadau gwybodus am addysg eu plant yn ôl cyfrwng iaith, a pheidio â symud yn ôl gyda'r ffocws ar gynyddu'r ganran o ddysgwyr sy'n ehangu eu profiadau dysgu drwy'r Gymraeg. Nod hirdymor hyn oll yw creu mwy o siaradwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd, yn unol ag uchelgais *Cymraeg 2050*.

Cyllid cyfalaf

Mae darparu cyllid cyfalaf yn ffordd effeithiol o helpu i greu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Gwneir hynny drwy gynllunio uchelgeisiol a phennu targedau cyraeddadwy, a chan wneud y mwyaf hefyd o'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli.

¹⁸ <https://llyw.cymru/adolygiad-o-gynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-2017-i-2020-adroddiad-terfynol>

Dyrannwyd swm o £30 miliwn ar gyfer prosiectau cyfalaf i hybu'r twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn 2018 drwy sefydlu Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y rownd gyntaf, derbyniwyd 46 o geisiadau ar draws 20 awdurdod lleol.

Cymeradwywyd amrywiaeth o wahanol brosiectau ledled Cymru yn ystod y rownd gyntaf (2018). Mae'r prosiectau'n amrywio o ehangu'r ddarpariaeth, er enghraifft mewn ysgolion, i agor ysgolion neu ganolfannau trochi newydd:

- Sefydlwyd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Sir Fynwy, Merthyr Tudful a Thorfaen (yn gysylltiedig ag ysgol uwchradd).
- Ehangwyd y ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg bresennol yn Wrecsam, Sir y Fflint, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot, a Chaerffili, i ymdopi â'r galw yn y siroedd hynny.
- Darparwyd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Chonwy, i gefnogi caffael iaith cynnar a denu rhagor o ddysgwyr i'r sector cyfrwng Cymraeg.
- Agorwyd canolfan Gymraeg arloesol sy'n gysylltiedig â darpariaeth gofal plant a chymorth i ddysgwyr Cymraeg ail iaith yn Sir Ddinbych; a rhoddwyd cymorth i ganolfannau i gefnogi hwyrddfyodiaid yng Ngwynedd a Sir Gaerfyrddin.

Bydd y prosiectau cyfalaf sydd wedi derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg Gymraeg ledled Cymru. Bydd y prosiectau hyn hefyd yn hybu'r iaith Gymraeg yn lleol.

Mae'r pandemig a Brexit wedi cael rhywfaint o effaith ar y gallu i gyflawni prosiectau, gyda dyddiadau cwblhau ar gyfer rhai yn cael eu symud ymhellach i 2022. Mae'r rhan helaethaf o'r prosiectau ar waith.

Mae 8 o'r 46 prosiect eisoes wedi'u cwblhau:

1. Caerfyrddin	Canolfan Iaith Gymraeg – Ysgol Maes y Gwendraeth
2. Caerdydd	Ysgol y Wern
3. Sir Ddinbych	Canolfan Iaith Gymraeg – Ysgol Glan Clwyd
4. Castell-nedd Port Talbot	YGG Tyle'r Ynn
5. Castell-nedd Port Talbot	YGG Cwmllynfell
6. Rhondda Cynon Taf	YGG Llantrisant
7. Yr Urdd	Glan-llyn Isa
8. Wrecsam	Ysgol Bro Alun

Gan fod y cylch cyntaf o geisiadau yn llawer uwch na'r cyllid a oedd ar gael, mae'n amlwg bod galw nas diwallwyd am fuddsoddiad cyfalaf o fewn y sector. Felly, cafodd ail gylch cyllid cyfalaf ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021 ac mae ceisiadau wrthi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Yn ystod 2019, dyrannwyd arian cyfalaf i'r Urdd, ac o'r herwydd mae gwaith i adnewyddu ac uwchraddio'r gwersylloedd wedi bod yn mynd yn ei flaen. Nod

y prosiect yw gwella cyfleusterau ac adnoddau'r gwersylloedd er mwyn creu gofod diogel i arloesi a chynnig cyfoeth o brofiadau a gweithgareddau i ddysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth draddodiadol, mewn amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw.

Cafodd y gwaith o adnewyddu a datblygu gwersyll Glan-llyn ei gwblhau ym mis Hydref 2020. Agorwyd Glan-llyn Isa (sy'n darparu llety hunan-ddarpar cyntaf yr Urdd) yn ystod gwanwyn 2021. Mae'n cynnig profiadau i grwpiau bach allu mwynhau holl weithgareddau'r gwersyll mewn awyrgylch cyfoes.

Mae'r gwaith ar brosiect Calon y Gwersyll, Llangrannog i foderneiddio rhan helaeth o'r gwersyll wedi cychwyn ers mis Ionawr 2020, ac mae'n debygol o gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2022.

Mae'r gwaith ar drydedd elfen y prosiect, sef datblygu canolfan hyfforddi dŵr Glan-llyn, bellach wedi derbyn caniatâd cynllunio. Dechreuodd y gwaith hwn ym mis Chwefror 2022 a disgwylir y bydd y gwaith yn dod i ben erbyn mis Mawrth 2023.

Cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg


Un o dargedau *Cymraeg 2050* yw cynyddu cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 22% o ddysgwyr Blwyddyn 2 yn 2015-16 i 24% erbyn 2021, er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 40% erbyn 2050. Yn y gorffennol, rydym wedi defnyddio asesiadau athrawon i adrodd ar ganran y dysgwyr Blwyddyn 2 a aseswyd yn Gymraeg fel iaith gyntaf.

Mae'r ystadegau yn yr asesiadau yn cael eu defnyddio y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach.

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gau ysgolion ar 20 Mawrth 2020, cyhoeddwyd nad oedd disgwyl i sefydliadau gyflwyno unrhyw ddata a gasglwyd fel data statudol yn y ffordd arferol o dan yr amgylchiadau. Felly, canslwyd Casgliad Data Cenedlaethol ar gyfer 2020 oherwydd y pandemig.

Wrth gydnabod fod cau yr ysgolion yn amharu ar lif data blynyddol, yn yr adroddiad hwn felly, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr lle mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu iddynt fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) er mwyn cael braslun o'r sefyllfa yn absenoldeb y data arferol. Mae Siartiau 4a a 4b yn cynnwys y ddwy ffynhonnell er mwyn dangos cysondeb yn y data, ac i ddangos ein cynnydd yn erbyn y targed hwn.

Siart 4a: Canran y disgyblion Blwyddyn 2 (saith oed) sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf



Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon

Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion, roedd 22.8% o ddysgwyr Blwyddyn 2 yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Mae'r ganran hon wedi aros yn eithaf cyson, gan amrywio rhwng 22% a 23% ers 2011/12.

Fel y nodir yn Siart 4a, y targed oedd cynyddu canran y dysgwyr saith oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 24% erbyn 2021. Er nad ydym wedi cyrraedd y targed o 24% erbyn 2021, mae arwyddion calonogol mewn carfanau iau, lle cafodd 23.8% o blant dosbarthiadau Derbyn (plant 5 oed fel arfer) eu haddysgu yn y Gymraeg yn 2020/21.

Ers cyflwyno *Cymraeg 2050*, gellir dweud ein bod wedi newid gêr o ran ceisio cynyddu nifer y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae'r arwyddion cynnar yn rhai cadarnhaol. Yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, er nad yw'r siart yn dangos cynnydd sylweddol yn y ganran.

Yn 2011/12, roedd 7,200 o ddysgwyr saith oed yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, gyda 7,700 erbyn 2020/21. Mae'r 500 yn fwy o blant gyfystyr â thros 16 o ddosbarthiadau newydd o 30 o blant. Nid yw'r cynnydd hwn wedi'i adlewyrchu yn y canrannau gan y bu cynnydd cyffredinol hefyd yng nghyfanswm nifer y dysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) dros y blynyddoedd

diwethaf (er, mae gostyngiad bach wedi bod yng nghyfanswm nifer y dysgwyr Blwyddyn 2 dros y ddwy flynedd ddiwethaf).

Siart 4b: Nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn y Dosbarth Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 (2012-2021)

	<u>Meithrin</u>		<u>Dosbarth Derbyn</u>		<u>Blwyddyn 1</u>		<u>Blwyddyn 2</u>	
	<u>Nifer</u>	<u>Canran</u>	<u>Nifer</u>	<u>Canran</u>	<u>Nifer</u>	<u>Canran</u>	<u>Nifer</u>	<u>Canran</u>
2011/12	7,510	21.1%	8,160	23.8%	7,670	23.1%	7,300	22.2%
2012/13	7,010	20.1%	8,290	23.3%	7,830	23.0%	7,550	22.7%
2013/14	7,460	20.6%	7,980	23.0%	8,100	22.8%	7,650	22.5%
2014/15	7,540	20.6%	8,250	23.3%	7,860	22.7%	7,990	22.4%
2015/16	7,630	20.9%	8,290	23.0%	8,110	23.0%	7,760	22.3%
2016/17	7,650	21.4%	8,330	23.5%	8,120	22.6%	7,950	22.5%
2017/18	7,630	21.6%	7,970	23.2%	8,300	23.3%	8,100	22.5%
2018/19	7,720	22.0%	7,790	23.1%	8,060	23.4%	8,190	23.0%
2019/20	7,880	22.9%	7,900	23.5%	7,850	23.3%	7,970	23.1%
2020/21	8,580	23.0%	7,900	23.8%	7,900	23.4%	7,700	22.8%

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)


Noder: nid oes yn rhaid i ysgolion adrodd ar nifer y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg sy'n iau na phump oed ar 31 Awst ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd. Mae hyn yn golygu nad yw'r wybodaeth yn gyflawn ar gyfer disgyblion dosbarthiadau meithrin a derbyn.

Mae'r cynnydd rhwng 2019/20 a 2020/21 ar gyfer y niferoedd mewn dosbarthiadau meithrin yn bennaf oherwydd penderfyniad i oedi dyddiad y cyfrifiad. Gohiriwyd y dyddiad (fel arfer, ar ail ddydd Mawrth mis Ionawr), i fis Ebrill. Aeth bron i 5,300 o ddisgyblion i ddosbarthiadau meithrin rhwng 13 Ionawr 2021 a 20 Ebrill 2021. Golygai hyn na fyddai'r disgyblion hyn yn cael eu cynnwys fel rheol yn niferoedd y cyfrifiad yn ystod mis Ionawr.

Un o dargedau eraill cynllun gweithredu *Y Gymraeg mewn Addysg* yw cynyddu cyfran y dysgwyr Blwyddyn 9 (14 oed) sy'n cael eu hasesu yn y

Gymraeg (iaith gyntaf) o 17.9% yn 2016/17 i 21% erbyn 2021. Unwaith eto, gan nad oes asesiadau athrawon ar gael ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 (oedran gorffen yr ysgol gynradd) nac ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9 yr ysgol uwchradd), rydym yn defnyddio canran y dysgwyr sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Fel ag yn achos Siartiau 4a a 4b, mae Siart 5 hefyd yn cynnwys y ddwy ffynhonnell ochr yn ochr er mwyn dangos cysondeb y data.

Siart 5: Canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, yn ôl blwyddyn academiaidd




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon

Mae Siart 5 yn dangos, yn ôl Cyfrifiad Ysgolion blwyddyn academiaidd 2020/21, bod 21.9% o ddysgwyr ar ddiwedd ysgol gynradd a 19.5% o ddysgwyr Blwyddyn 9 mewn ysgol uwchradd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r canrannau hyn wedi cynyddu ychydig ers 2012, ond mae'r ganran sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 yn parhau i fod yn is na'r ganran yng Nghyfnod Allweddol 2, dair mlynedd ynghynt (er enghraifft, gan gymharu Cyfnod Allweddol 2 yn 2017/18 â Chyfnod Allweddol 3 yn 2020/21).

Fodd bynnag, bydd disgwyl i awdurdodau lleol barhau i wella dilyniant ieithyddol rhwng y cynradd a'r uwchradd i sicrhau bod ein dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo i addysg uwchradd, a bod nifer y dysgwyr sy'n newid i ddilyn y llwybr Cymraeg (ail iaith) yng Nghyfnod Allweddol 3 yn gostwng. Fel rhan o'r cwricwlwm newydd, bydd continwrm newydd ar gyfer ieithoedd yn cael ei ddatblygu, i gynnwys y Gymraeg, a bydd pob dysgwr yn dilyn yr un llwybr ar gyfer dysgu'r Gymraeg. Felly, yn y dyfodol, bydd disgwyl i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg wrth iddynt symud ar hyd y continwrm.

Siart 6: Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau neu bump cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

Noder: Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau'r disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid gradd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan.

Mae Siart 6 yn dangos bod 86.9% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2020/21 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwyd cynnydd cyson ers 2013/14, gan gyrraedd y targed o 86% erbyn 2021.

Roedd 75.2% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2020/21 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu cryn dipyn ers 2015/16, ac wedi hen gyrraedd y targed o 65% erbyn 2021.

E-sgol

Mae prosiect e-sgol yn seiliedig ar e-sgoil yr Alban. Mae'n fenter ddysgu gyfunol sy'n darparu cyfleoedd addysgu a dysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau uniongyrchol, dysgu amser real a rhyngweithiol. Gan ddefnyddio'r ystod o offer a gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb, mae'r prosiect wedi galluogi myfyrwyr o wahanol ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd addysgu

electroneg gan athrawon cymwys a phrofiadol.

Treialwyd y prosiect e-sgol yng Ngheredigion yn ystod 2018/19. Ehangwyd y peilot yn ystod yr ail flwyddyn (2019/20) i gynnwys darpariaeth mewn ysgolion ym Mhowys ac yn Sir Gaerfyrddin. Ehangwyd y ddarpariaeth eto yn ystod 2020/21 gyda bron i 300 o ddisgyblion yn defnyddio e-sgol o'i gymharu â 121 yn 2019/20.

Yn ystod y pandemig, roedd e-sgol yn gyfrwng i gynnig gwersi ychwanegol i ddisgyblion, er mwyn atgyfnerthu a chryfhau eu dealltwriaeth o'u gwaith. Cynhaliwyd sesiwn gyntaf Carlam Cymru er mwyn cynnig ystod eang o bynciau i safon TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch – gyda bron i 3,000 o yn mynychu'r sesiynau. Mae'r ddarpariaeth yn mynd o nerth i nerth a'r bwriad yw parhau i ehangu ymhellach fel bod mwy o ddisgyblion yn gallu elwa ar y dechnoleg hon.

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Rydym yn parhau i weithio i gynyddu nifer y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Cyhoeddwyd canllaw terfynol ar gyfer categoraiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar 16 Rhagfyr 2021. Cafodd y canllaw terfynol ei seilio ar waith ymchwil ac ymgynghori manwl gydag ystod eang o randdeiliaid perthnasol ar draws Cymru.

Dim ond y cam cyntaf yw cyhoeddi'r canllaw newydd ar gyfer categoraiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac ysgolion dros y cyfnod nesaf er mwyn eu hannog a'u cefnogi i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ledled Cymru.

Yn ystod trafodaethau'r Bwrdd Cynghori CSCA, daeth i'r amlwg bod angen cynyddu cyfran yr addysgu a'r dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Mae'r rheoliadau newydd ar gyfer y CSCA yn gosod trefniadau newydd, mwy uchelgeisiol i awdurdodau lleol eu dilyn. Er mwyn i rai siroedd gyrraedd eu targedau CSCA, bydd gofyn iddynt roi ystyriaeth i gynyddu cyfran y dysgu ac addysgu sy'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ysgolion.

Fe wnaeth y Bwrdd Cynghori argymhell y dylem geisio cael darlun mwy eglur o safbwynt athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan osod targedau penodol ac uchelgeisiol i ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol o ran recriwtio hyfforddeion sy'n medru'r Gymraeg.

Nodwyd hefyd yr angen i gynllunio'n fwy pwrpasol gyda sefydliadau addysg uwch, consortia addysg lleol ac awdurdodau lleol. Mae'r cydweithio gydag adrannau perthnasol yn y Llywodraeth yn mynd rhagddo, a chamau ar waith i ddenu athrawon, gwella'u sgiliau a'u cefnogi, ac i gynllunio'r gweithlu'n bwrpasol er mwyn symud tuag at y targedau. (Gweler Siart 10 a manylion llawn y gwaith sy'n digwydd yn y maes hwn isod).

Yn sgil ein disgwyliad i awdurdodau lleol fabwysiadu targedau 10 mlynedd,

mae hyn yn golygu y bydd gennym olwg ar union gyfraniad pob awdurdod i dargedau *Cymraeg 2050*.

Y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid

Mae darparu cyfleoedd trochi hwyr ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd yn parhau i gael ei nodi yng Nghynlluniau CSCA yr awdurdodau lleol. Y nod yw cadarnhau ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, drwy ddarpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid.

Drwy rheoliadau newydd y CSCA, bydd datblygu'r ddarpariaeth a chynnig cyfleoedd trochi yn cael lle amlycach ar lefel sirol a chenedlaethol. Erbyn hyn, mae 19 canolfan drochi a 3 chanolfan uwchradd ar draws 10 sir yng Nghymru, gyda siroedd yn darparu cefnogaeth trochi hwyr i ddysgwyr o ystod o oeddrannau. Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid, gan fonitro'r maes yng nghyd-destun COVID-19 wrth i nifer yr hwyrddyfodiaid a'r galw am gefnogaeth trochi hwyr gynyddu.

Mae cynyddu darpariaeth trochi hwyr yn un o amcanion Rhaglen Lywodraethu newydd y Llywodraeth ar gyfer tymor y Chweched Senedd ac mae gwaith eisoes ar droed i ymestyn darpariaeth ymhellach ledled Cymru.

Hyrwyddo Addysg Gymraeg

Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein hymgyrchoedd i gefnogi'r llwybr i addysg Gymraeg yn ystod 2020-21.

Rydym wedi cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol er mwyn gwella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i rieni a darpar-rieni. Mae is-bwyllgorau cyfathrebu a marchnata, sydd wedi'u sefydlu gan rai awdurdodau lleol, wedi helpu i wella'r wybodaeth hon gan sicrhau ei bod yn ymestyn ar draws gwaith yr awdurdod lleol, yn ogystal â phartneriaid eraill ar lefel leol a chenedlaethol.

4. Addysg ôl-orfodol


Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng yn sylweddol ar ôl 16 oed. Mae ystod o ffactorau cymdeithasol cymhleth yn dylanwadu ar bobl ifanc, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant ac astudio ôl-16, gweithgareddau cymdeithasol (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol), iaith y cartref a chyfleoedd am gyflogaeth.

Rhaid i ni wneud yn siŵr bod yna ddigon o gyfleoedd i bobl ifanc siarad Cymraeg. Byddai lleihau'r gostyngiad hwn ar ôl 16 oed fymryn yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr ynghynt.

Rydym hefyd eisiau gweld mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch. Mae hyn yn un o dargedau eraill *Cymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017 i 2021*.

Rydym yn monitro hyn drwy edrych ar faint o ddysgwyr sydd wedi cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch fel canran o'r rhai a wnaeth gofrestru i wneud TGAU Cymraeg ddwy flynedd cyn hynny.

Siart 7a: Cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg TGAU ddwy flynedd yn gynharach, iaith gyntaf ac ail iaith



Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Noder: Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau y disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid radd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan.

Mae Siart 7a uchod yn dangos dilyniant dysgwyr yn symud o TGAU i Safon Uwch. Erbyn y flwyddyn academaidd 2020/21, roedd 4.8% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf¹⁹ wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf. Mae'n dangos hefyd bod 1.4% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg ail iaith.


Mae canran y cofrestriadau TGAU Cymraeg sydd hefyd yn cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf ac ail iaith) wedi disgyn dros y degawd diwethaf. Un o'r rhesymau am y gostyngiad yw'r cynnydd cyffredinol yn y ganran sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg ddwy flynedd yn

¹⁹ Ar gyfer data y flwyddyn adrodd hon, rydym parhau i ddefnyddio'r term 'ail iaith' wrth drafod yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

gynharach (fel gwelir yn Siart 3). Mae Siart 3 yn dangos fod 86% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2020/21. Mae hyn wedi cynyddu dros y degawd diwethaf o 70% yn 2008/09. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod disgyblion yn dilyn y llwybr TGAU cywir.

Mae Siart 7b isod yn dangos yr un wybodaeth ag yn Siart 7a, gan ddefnyddio niferoedd y cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch yn unig, yn hytrach na chanran y cofrestriadau yn seiliedig ar gofrestriadau TGAU ddwy flynedd yn gynharach.

Siart 7b: Nifer y cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch, iaith gyntaf ac ail iaith



Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Fel y gwelir yn Siart 7b, mae'n ymddangos nad yw'r cynnydd yn y ganran sy'n sefyll TGAU Cymraeg (gweler Siart 3) yn trosglwyddo i'r nifer sy'n dilyn Cymraeg Safon Uwch. Nid yw'r 86% o ddysgwyr Blwyddyn 11 y cyfeirir atynt yn Siart 3 (wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2020/21) wedi dechrau astudio cyrsiau Safon Uwch eto. Bydd rhaid aros tan fod data casgliad 2021/22 a 2022/23 ar gael i ddangos y gwir sefyllfa yn y niferoedd sy'n trosglwyddo o TGAU i Safon Uwch.


Mae Cymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017 i 2021 yn cynnwys amcan penodol i gynyddu'r nifer o ddysgwyr sy'n sefyll Cymraeg fel Safon Uwch. Mae'r gwaith hwn o dan ofal grŵp o randdeiliaid (y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymwysterau Cymru, CBAC, adrannau Cymraeg y prifysgolion, yr Urdd, y consortia addysg rhanbarthol ac athrawon) sydd wedi'i sefydlu i

symud y gwaith yn ei flaen. Y nod yw hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm er mwyn gallu cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddod yn fwy ddwyieithog.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21, rhoddwyd £145,000 i gefnogi'r gwaith hwn. Yn sgil y pandemig, bu'n rhaid oedi rhai agweddau ar y cynllun, megis cynnal sesiynau mentora gyda dysgwyr a'r gwaith hyrwyddo mewn ysgolion. Serch hynny, derbyniodd 33 o ysgolion a cholegau grantiau gwerth hyd at £2,000 yr un, i gefnogi gweithgareddau i wella profiadau dysgwyr o astudio'r Gymraeg, ac i gefnogi costau cynnal y ddarpariaeth mewn lleoliadau lle roedd nifer y dysgwyr a oedd yn astudio'r pwnc yn isel. Dyrannwyd cyllid hefyd i bedair prifysgol i ddatblygu darpariaeth sy'n rhoi profiad o'r ystafell dosbarth i fyfyrwyr is-raddedig. Mae'r ddarpariaeth hon wrthi'n cael ei pheilota yn 2021/22.

Rydym hefyd yn awyddus i weld cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg bellach. Mae Siart 8 isod yn dangos y cynnydd hwn yn ôl y math o ddarparwr.

Siart 8: Canran y gweithgareddau addysg sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr



Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

Nodiadau:

- Mae "cyfrifion" yn cynnwys gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy gan ddysgwyr 19 oed neu iau ar 31 Awst yn y flwyddyn academiaidd yn unig.
- Mae "cyfrifion" yn eithrio cymwysterau Cymraeg, er enghraifft, TGAU Cymraeg, Safon Uwch Cymraeg, Cymraeg i Oedolion.
- Nid yw'r "cyfrifion" yn cynnwys nodau dysgu lefel Addysg Uwch.
- Mae'r diffiniad o "gyfrwng Cymraeg" ar y Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) wedi newid o 2014/15 ymlaen i fod yn ddibynnol ar iaith asesu'r gweithgaredd dysgu.

- Gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg yw'r rhai lle cwblheir yr holl asesiadau yn Gymraeg.
- Gweithgareddau dysgu dwyieithog yw'r rhai lle cwblheir o leiaf 50 y cant o'r holl asesiadau yn Gymraeg.
- Mae rhai gweithgareddau dysgu dwyieithog yn cyfeirio at sefyllfa lle mae'r dysgu'n ddwyieithog, ond mae'r asesiadau'n cael eu cwblhau'n bennaf neu'n gyfan gwbl yn Saesneg.
- Mae hyn yn wahanol i'r diffiniad o gyfrwng a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol, a oedd ond yn ystyried iaith y dysgu ei hun.

(e) Nid yw'r newid yn y diffiniad o gyfrwng yn berthnasol i ddata ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion.

(f) Pennir y math o ddarparwr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith yn ddibynnol ar y prif ddarparwr yn cyflwyno'r dysgu. Mae hyn yn wahanol i sail aelodau'r consortiwm a ddefnyddir mewn ystadegau a gyhoeddir mewn manau eraill.

Noder: Pe byddai dau sefydliad addysg bellach wedi cofnodi data yn gywir yn 2016/17, byddai'r ganran wedi bod yn 7.6%, yn hytrach na 5.2% fel sydd yn ymddangos yn y siart.

Fel y gwelir yn Siart 8, mae canran y gweithgareddau dysgu sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac yn achos y darparwyr hyfforddiant wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf, ac wedi sefydlogi yn 2019/20. Gan nad oedd yn bosib adrodd ar flwyddyn academiaidd lawn, defnyddir y data diweddaraf a oedd ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Cywirwyd data blwyddyn academiaidd 2018/19 (ar gyfer y chweched dosbarth a dysgu'n seiliedig ar waith), ar ôl adnabod gweithgareddau dysgu na ddylid fod wedi eu cynnwys yn wreiddiol (pwyntiau (a) i (f) uchod). Y bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

Ers cyhoeddi *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg*²⁰ y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Rhagfyr 2018), mae'r Coleg wedi cefnogi prosiectau strategol gyda chwe choleg ychwanegol yn 2020/21.

Roedd y prosiectau hyn yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth lechyd a Gofal; Gofal y Blynyddoedd Cynnar; a Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn sefydlu seilwaith gadarn ar gyfer y ddarpariaeth a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

O ganlyniad, cyflogwyd tiwtoriaid ychwanegol, sefydlwyd grwpiau pynciol ar draws y colegau, datblygwyd adnoddau dosbarth a rhannwyd arfer da rhwng y sefydliadau. Dechreuodd y gwaith hwn yn ystod 2019/20 a gobeithiwn weld canlyniad y gwaith cynnar hwn yn cael ei adlewyrchu yn y data ar gyfer 2021/22 pan fydd dysgwyr wedi cwblhau dwy flynedd o addysg a hyfforddiant ôl-16.

Defnyddiwyd £119,000 i ddatblygu a chyfieithu adnoddau helaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Cyhoeddus – 60 uned a addaswyd o unedau'r Blended Learning Consortium (BLC)
- Iechyd a Gofal / Gofal Plant – 15 uned BLC

²⁰ <http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/addysgbellachaphrentisiaethau/cymraeg2050/>

- Gofal Anifeiliaid – addasu 63 uned
- Prentis-iaith 2 ar lefel dealltwriaeth ynghyd â datblygu Prentis-iaith 1 ym maes Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gyd-fynd â chymwysterau cyfrwng Cymraeg yn allweddol i dwf darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae Prentis-iaith, adnodd rhyngweithiol i'r sector prentisiaethau, wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth gynorthwyo prentisiaid heb sgiliau Cymraeg, neu ag ychydig sgiliau yn unig, i wella eu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd a phwysigrwydd gwasanaeth cwsmer. Mae nifer o ddarparwyr prentisiaethau eisoes wedi ymgorffori Prentis-iaith yn eu rhaglenni sefydlu. Mae galw amlwg am lefelau ychwanegol i gynyddu sgiliau'r prentisiaid ymhellach.

Mae rhaglen Llysgenhadon y Coleg i'r sector ôl-16 hefyd wedi'i hystreyn. Roedd 36 o'r 42 o lysgenhadon a benodwyd yn y colegau a'r 6 arall yn cynorthwyo darparwyr hyfforddiant i fagu hyder dysgwyr yn eu Cymraeg, ac yn derbyn cyfleoedd i sgwrsio a deall pwysigrwydd siarad yr iaith, yn enwedig yn y gweithle.

Mae hyfforddiant i diwtoriaid yn allweddol wrth fynd ati i ehangu'r ddarpariaeth. Hyfforddwyd dros 1,000 o diwtoriaid ar draws 12 coleg addysg bellach a 22 o sefydliadau hyfforddiant ôl-16.

Ers Awst 2020, mae Sgiliaith wedi cynnal rhaglen fentora sy'n cefnogi tiwtoriaid ar raglenni Tystysgrif Addysg i Raddedigion, Cymraeg Gwaith, a TAQA (cymhwyster hyfforddiant, asesu a sicrhau ansawdd). Yn yr wyth mis hyd at ddiwedd Mawrth 2021, cefnogwyd cyfanswm o 32 o aelodau o staff i godi hyder a'u galluogi i ddefnyddio'u Cymraeg yn eu gwaith bob dydd.

Yn ystod 2020-21, sefydlodd yr Urdd Hwb Sgiliau Hanfodol i gefnogi prentisiaid i gwblhau eu hyfforddiant yn llwyddiannus drwy gyfrwng y Gymraeg. Cwblhaodd 64 o ddysgwyr eu sgiliau sylfaenol mewn rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol Lefel 2, gyda 159 o ddysgwyr yn cwblhau prentisiaethau'r Urdd (Lefelau 1, 2 a 3) mewn Arwain Gweithgareddau, Datblygu Chwaraeon a Rhaglenni Awyr Agored. Ymestynnwyd eu darpariaeth i faes Gofal y Blynnyddoedd Cynnar, mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin, er mwyn diwallu'r galw cynyddol am staff dwyieithog i weithio mewn Cylchoedd Meithrin a swyddi dethol i gymhwyster Lefel 3 yn y maes.

Addysg uwch

Bellach, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi prifysgolion i ddatblygu modiwlau a chyrsgau drwy grantiau ar y cyd â'r sefydliadau, yn hytrach nag ariannu swyddi darlithwyr sy'n gwreiddio'r ddarpariaeth fel rhan annatod o'r arlwy.

Ers sefydlu'r Coleg yn 2011, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn 29 o'r prif grwpiau pwnc. Mae hyn yn gynydd o 17 maes dros y ddegawd. Gwelwyd darpariaeth newydd mewn Peirianeg ym Mhrifysgol Bangor, Ffiseg


ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Astudiaethau Heddlua ym Mhrifysgol De Cymru o ganlyniad i Grantiau Pynciol.

Yn dilyn dyfarnu 7 Grant Sbarduno, datblygwyd darpariaeth newydd mewn Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Bangor, Gwyddorau Parafeddygol ym Mhrifysgol Abertawe a Milfeddygaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Cynyddodd nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg 45% rhwng 2011/12 a 2019/20. Cefnogir y darlithwyr drwy raglen hyfforddiant staff academiaidd misol sy'n cynnwys hyfforddi wyneb yn wyneb, dysgu o bell a gweithdai.

Cynigir ysgoloriaethau i israddedigion ac uwchraddedigion i astudio cyrsiau a modiwlau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynyddodd y Coleg nifer yr ysgoloriaethau cymhelliant sydd ar gael i is-raddedigion yn 2020/21 i 500, er mwyn ymateb i heriau COVID-19. Mae'n amod bod myfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyfarnwyd 473 ysgoloriaeth cymhelliant, 18 ysgoloriaeth meddygaeth, a 20 prif ysgoloriaeth lle mae'r dysgu i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Siart 9: Canran y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu haddysg



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

O'r 4,740 o fyfyrwyr a astudiodd o leiaf pump o gredydau yn Gymraeg yn 2019/20, astudiodd 2,510 ohonynt o leiaf 40 credyd yn Gymraeg – cynnydd o 100 cofrestriad ers 2017/18.

Astudiodd 1,415 o fyfyrwyr o leiaf 80 credyd yn Gymraeg yn 2019/20 – cynnydd o 75 cofrestriad ers 2018-19. Hefyd, astudiodd 780 o fyfyrwyr 120 o gredydau yn Gymraeg yn 2019/20, a hynny mewn cyfnod pan oedd 3,055 yn llai o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â 2018/19.

Er bod gostyngiad o 305 o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint o'u haddysg yn Gymraeg o gymharu â 2018/19, roedd y gostyngiad hwn wedi'i gyfyngu i'r rheiny a oedd yn gwneud llai na phum credyd.

Dysgu Cymraeg

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) yn 2015 er mwyn cydlynu darpariaeth a chynnig arweiniad i'r maes dysgu Cymraeg. Creu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n hyderus yn defnyddio eu sgiliau newydd yw nod y Ganolfan, a thrwy hynny, gyfrannu at wireddu'r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

O ganlyniad i COVID-19, daeth darpariaeth wyneb yn wyneb y Ganolfan i ben yn sydyn ym mis Mawrth 2020. Fe wnaeth y Ganolfan a'r darparwyr rhanbarthol ymateb yn gyflym ac yn effeithiol, gan symud i ddysgu'n rhithiol a sicrhau bod pobl yn parhau i gael cyfleoedd i ddysgu Cymraeg drwy gydol 2020/21. Symudodd y Ganolfan yn gyflym hefyd i lansio cwrs dysgu cyfunol newydd, sy'n cyfuno dysgu annibynnol â sesiynau ar-lein gyda thiwtoriaid. Ym mis Mai 2020, dechreuodd tua 800 o ddysgwyr newydd y cwrs hwn mewn 89 o ddosbarthiadau rhithiol.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Ebrill 2020, cynhaliodd y Ganolfan sesiynau "Cymraeg yn y cartref" dyddiol ar *Facebook*. Cymerodd dros 1,000 o bobl ran yn y rhain yn rheolaidd. Mewn ymateb i heriau'r pandemig, fe wnaeth y Ganolfan hefyd sefydlu grŵp arbenigol i rannu arfer da yn y dulliau newydd o ddysgu, a rhyddhau adnoddau digidol ynghynt na'r disgwyl fel bod darparwyr a dysgwyr yn gallu eu defnyddio yn ystod cyfnod y pandemig. Yn ogystal â hynny, fe ddatblygodd y Ganolfan bartneriaeth ffurfiol gyda'r cwmni *Say Something in Welsh* er mwyn rhannu adnoddau, arbenigedd, a'i gwneud yn haws i ddysgwyr symud o un darparwr i'r llall.

Cynhaliodd Estyn arolwg o'r Ganolfan ym mis Ionawr 2021, a chafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Rhai o'r prif gasgliadau oedd bod gan y Ganolfan weledigaeth glir, a'i bod yn cyfrannu'n effeithiol at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nododd Estyn bod y Ganolfan wedi datblygu i fod yn llais cenedlaethol, dylanwadol i'r sector, ac wedi llwyddo i greu ystod eang o bartneriaethau strategol gyda sefydliadau cenedlaethol i ymestyn y cynnig dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Ar 31 Mawrth 2021, cyhoeddodd y Ganolfan set o ddata cyflawn ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20²¹. Mae'r data'n dangos bod gan y Ganolfan 17,505 o ddysgwyr unigryw yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, sy'n gynnydd o 32% o gymharu â 2018/19.

Mae'r data hefyd yn dangos:

- Bod y Ganolfan wedi darparu 30,115 o weithgareddau dysgu yn ystod 2019/20.
- Bod 68% o ddysgwyr ar lefel Mynediad (dyma'r lefel gychwynnol i ddechreuwyr).
- Bod 11% ar lefel Sylfaen a 19% ar lefelau Canolradd neu Uwch (gan gynnwys Hyfedredd).
- Bod 86% o'r dysgwyr rhwng 16 a 64 oed.

Y bwriad yw cynnwys diweddariad data pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar

Yn ystod 2020-21, fe wnaeth rhaglen datblygu proffesiynol parhaus 'Academi' gynnis hyfforddiant i dros 2,700 o aelodau staff a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru.

At hynny, dechreuodd 60 o unigolion ar eu prentisiaeth mewn gofal plant drwy gynllun prentisiaethau Mudiad Meithrin a'r Urdd.

Rydym wedi parhau i ddatblygu rhaglen 'Croesi'r Bont', sy'n cyflwyno methodolegau trochi'r Gymraeg i ymarferwyr mewn Cylchoedd Meithrin.

Mae rhaglen hyfforddiant Mudiad Meithrin hefyd wedi galluogi ymarferwyr a darpar ymarferwyr i gymhwyso a gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Athrawon

Athrawon cynradd

Mae ychydig o brinder yn nifer yr athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg a gafodd eu recriwtio o'u cymharu â thargedau *Cymraeg 2050* ar gyfer cynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg erbyn 2021. Mae hyn yn bwysig am fod cysylltiad rhwng y targed ar gyfer recriwtio athrawon a'r targed ar gyfer nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a amlinellir yn *Cymraeg 2050*. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r gwaith ar y Rheoliadau Cynlluniau Strategol

²¹ <https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/cyhoeddi-data/ystadegau-2019-20>

Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 wedi cryfhau'r gofyniad i awdurdodau lleol nodi faint o athrawon sydd eu hangen arnynt i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg, fel rhan o'u CSCA.

Roedd 2,871 o athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn academiaidd 2020/21 o'i gymharu â'r targed o 3,100 yn *Cymraeg 2050* ar gyfer 2021, ac felly rydym 229 yn brin o'r targed (7%).

Os bydd nifer tebyg yn ymgeisio i ddilyn cwrs hyfforddi Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) i addysgu yn y sector cynradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21 (145 yn 2019/20), byddwn yn brin o tua 84 (3%) o athrawon cynradd yn erbyn targed 2021, heb ystyried trosiant staff.

Athrawon uwchradd

Mae recriwtio athrawon uwchradd wedi bod yn fwy heriol. Yn 2020/21, roedd 2,395 o athrawon uwchradd yn addysgu yn Gymraeg o'i gymharu â'r targed o 2,800 ar gyfer 2021, sy'n ddiffyg o 405 (14%).


Os bydd nifer tebyg yn ymgeisio i ddilyn cwrs hyfforddi Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 2020/21 (90 yn 2019/20), byddwn yn brin o tua 315 (11%) yn erbyn targed 2021, heb ystyried trosiant staff.

Fel sydd wedi'i amlinellu yn Siart 7b, mae Cymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21 yn cynnwys targedau a champau gweithredu i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch (fel iaith gyntaf neu ail iaith), fel un ffordd o wneud yn siŵr bod yna gyflenwad digonol o athrawon uwchradd a all addysgu Cymraeg yn y dyfodol. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i annog mwy o ddysgwyr i astudio Cymraeg Safon Uwch, er mwyn cynyddu'r nifer sy'n parhau i astudio'r iaith ar lefel israddedig ac a all fynd ymlaen i ddilyn cwrs hyfforddi Addysg Gychwynnol Athrawon.

Mae recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg yn rhan allweddol o'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn darparu cymhellion ariannol sylweddol i ddenu athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy ein cynllun Iaith Athrawon Yfory (gweler isod), sydd, gyda'n hymgyrchoedd marchnata pwrpasol, yn denu athrawon cyfrwng Cymraeg newydd i'r sector. Yn ystod 2020/21, cynhaliwyd y cynllun pontio i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd i athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg symud i addysgu mewn ysgolion uwchradd. Dechreuodd 10 ar y cynllun ym mis Medi 2020.

Mae ffigurau diweddaraf UCAS (ym mis Awst 2020) yn dangos cynnydd o 19% yn nifer y ceisiadau myfyrwyr am leoedd hyfforddi i fod yn athrawon. Mae hyn yn galonogol, gan y byddem wedyn hefyd yn disgwyl cynnydd yn nifer y bobl sy'n hyfforddi i fod yn athrawon a fydd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Siart 10: Nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion

Mae Siart 10 yn dangos bod nifer yr athrawon cynradd (glas golau) sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fwy neu lai'r un peth ag yn 2015/16, ond bod nifer yr athrawon ysgol uwchradd (glas tywyll) wedi cynyddu ychydig dros yr un cyfnod.

Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion

Yn 2018/19, cwblhawyd y gwaith paratoi ar gyfer cynnal Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion, er mwyn gallu dysgu mwy am sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg.

Cynhaliwyd yr ail Gyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion ym mis Tachwedd 2020, ac roedd yn cynnwys cwestiynau ar sgiliau Cymraeg y gweithlu a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhoeddir data a gesglir o'r cyfrifiad ar ein gwefan²² yn flynyddol, ac mae'n cynnwys dadansoddiad o'r wybodaeth a gesglir am allu'r gweithlu yn y Gymraeg a chyfrwng yr addysgu.

Bydd yr wybodaeth hon, ynghyd â'r wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, cynlluniau busnes ysgolion yr 21ain ganrif, a chynigion trefniadaeth ysgolion yn darparu darlun manylach a mwy cyflawn o'r cynnydd a wnaed tuag at dargedau *Cymraeg*

²² <https://llyw.cymru/canlyniadau-cyfrifiad-gweithlu-ysgolion-ym-mis-tachwedd-2020-diwygiedig-html>

2050. Bydd hyn yn ein helpu i wella'r broses o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol.

Iaith Athrawon Yfory

Mae cynllun cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) Iaith Athrawon Yfory, a lansiwyd ym mis Medi 2018, ar gael i athrawon cymwys dan hyfforddiant sy'n astudio i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y symiau sydd ar gael o dan y cynllun yw:

- £2,500 ar ôl dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) ar ôl cwblhau rhaglen AGA ôl-radd uwchradd achrededig.
- £2,500 ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir, neu ar ôl addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

Mae hyn yn rhoi cyfanswm o £5,000, ac mae'n ychwanegol at gymhellion eraill sydd ar gael i athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg newydd cymwys.

Rhaglenni hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon

Mae'r rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn parhau i ddarparu cyfleoedd i bob hyfforddai ddatblygu ei sgiliau Cymraeg fel rhan o'r cwrs. Mae'r partneriaethau AGA oll yn darparu o leiaf 25 awr o hyfforddiant Cymraeg a chefnogaeth i feithrin hyder wrth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â lefelau fframwaith cyffredin.

Yn ystod 2020/21, cafodd trefniadau newydd eu peilota gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gymedroli defnydd y darparwyr AGA o'r fframwaith, er mwyn sicrhau bod y lefelau yn cael eu gosod yn gyson ar draws Cymru. Dysgwyd rhai gwersi o'r broses, a bydd y trefniadau yn parhau yn 2021/22.

Recrwtio a marchnata

Ym mis Medi 2019, cyflwynwyd gofyniad i Bartneriaethau AGA weithio tuag at sicrhau bod 30% o'r rhai sy'n cael eu recrwtio ar gyrsiau yn dilyn cyrsiau sy'n eu paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyma ychydig o'r data diweddaraf sydd ar gael yn y maes hwn:

- Dechreuodd 1,080 o fyfyrwyr ar gyrsiau AGA yn 2019/20; 615 ar gyrsiau ysgol gynradd a 465 ar gyrsiau ysgol uwchradd.
- Bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf yng Nghymru sy'n gallu addysgu yn y Gymraeg yn dilyn gostyngiad dros y pum mlynedd blaenorol. 235 oedd y ffigur yn 2019/20, sef 22% o gyfanswm nifer y myfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf yng Nghymru.
- Gwyddoniaeth, Saesneg a Mathemateg yw'r pynciau mwyaf cyffredin i fyfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd.

- Roedd ychydig dros 8 o bob 10 o fyfyrwyr AGA newydd a oedd yn hyfforddi yng Nghymru yn byw yng Nghymru cyn dechrau ar eu gradd.

Mae gennym ymgyrchoedd marchnata sy'n targedu myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn benodol ar gyfer AGA, yn ogystal â rhaglenni recriwtio mwy cyffredinol ar gyfer hyfforddi athrawon.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Phartneriaethau AGA a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu strategaethau recriwtio mwy cynaliadwy, gyda'r nod o gynyddu nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a gaiff eu recriwtio.

Y bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

Y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg

Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn darparu hyfforddiant dwys i ddatblygu sgiliau Cymraeg a methodoleg dysgu iaith ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar draws Cymru.

Mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig, addaswyd y cyrsiau Cymraeg Mewn Blwyddyn fel bod modd eu cynnig ar-lein (gydag ambell i sesiwn wyneb yn wyneb pan oedd cyfyngiadau'n caniatáu). Yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21, darparwyd 4 cwrs mewn 3 lleoliad gyda 51 o gyfranogwyr.

Yn sgil darparu llai o gyrsiau na'r arfer, defnyddiwyd y cyfle i ddatblygu modelau mwy hyblyg o'r Cynllun er mwyn gallu parhau i ddiwallu anghenion iaith Gymraeg y gweithlu addysg yng Nghymru. Yn ogystal, ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, datblygwyd cwrs hunan-ddysgu ar lefel Mynediad wedi'i deilwra i athrawon.

Cafodd gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol²³ ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw mewn partneriaeth â darparwyr y cyrsiau, y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol. Byddwn yn ymateb i'r argymhellion wrth gynllunio darpariaeth y dyfodol.

Gwaith gyda'r consortia rhanbarthol

Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, dyrannwyd £2,700,000 o'r gyllideb Gwella Safonau Mewn Ysgolion i'r consortia rhanbarthol, i gefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg.

Mae'r consortia rhanbarthol yn cefnogi ysgolion ac ymarferwyr i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, ac yn arbennig i addysgu Cymraeg fel

²³ <https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-sabothol-iaith-gymraeg-ar-gyfer-ymarferwyr-addysg-crynodeb-html>

rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. I'r perwyl hwn, mae'r rhanbarthau'n darparu ystod eang o ddysgu a chymorth proffesiynol er mwyn:

- Datblygu sgiliau iaith Gymraeg a methodoleg addysgu er mwyn cryfhau pob agwedd ar addysgu Cymraeg fel pwnc, ehangu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm, a'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ysgolion.
- Datblygu sgiliau ymarferwyr er mwyn gwella sut mae'r cwricwlwm yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod arweinwyr yn gallu cynllunio a datblygu'r Gymraeg yn strategol ar draws yr ysgol, yn ogystal â datblygu ethos Cymreig yn yr ysgolion.
- Cynllunio'r gweithlu'n rhanbarthol, gan ddefnyddio data o'r Cyfrifiad Blyneddol o'r Gweithlu Ysgolion er mwyn gwella sgiliau iaith ymarferwyr a'u gallu i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg, a hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector hwn.

Yn ystod y pandemig, sefydlodd y consortia rhanbarthol drefniadau ar y cyd i ddatblygu adnoddau digidol ar gyfer addysgu'r Gymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy hyn, roedd dysgwyr yn gallu parhau i ddatblygu'u sgiliau tra'u bod i ffwrdd o'r ysgol.

Darparwyd cyllid hefyd drwy'r Grant Gwella Addysg. Bu'r awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi elfennau o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, er enghraifft canolfannau trochi.

Y gweithlu ôl-16

Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, fe wnaethom barhau i ariannu Sgiliaith i roi cefnogaeth ymarferol ar ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu'n ddwyieithog i diwtoriaid mewn colegau addysg bellach, ac i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith. Rydym wedi gwneud hyn er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n cwblhau eu haddysg yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Fel bod modd i fyfyrwyr ymgymryd â mwy o'u haddysg yn ddwyieithog, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnal y rhaglen Cymraeg Gwaith yn y colegau addysg bellach er mwyn datblygu sgiliau iaith tiwtoriaid. Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, dilynodd 305 o gyflogeion o wyth prifysgol y cwrs 'Dysgu', a 305 o gyflogeion o ddeg coleg addysg bellach. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol bellach yn rheoli'r Cynllun Dysgu Dwys, sy'n cydlynu gwaith y rhaglen Cymraeg Gwaith yn y sectorau addysg bellach ac uwch.

Yn ystod 2019/20, darparwyd tua 9,500 o weithgareddau dysgu, gyda 7,000 o'r rhain yn hyfforddiant ar-lein a 2,500 yn hyfforddiant wyneb yn wyneb. Fe gofrestrodd 1,258 o gyflogwyr ar gyfer cyrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith, tra bod 28 o gyflogwyr wedi manteisio ar yr hyfforddiant Dysgu Dwys a 98 yn manteisio ar yr hyfforddiant preswyl.

Adnoddau addysg

Yn ystod y pandemig, canolbwyntiodd y gwaith o gomisiynu adnoddau ar sicrhau bod adnoddau ar gael yn ddigidol, ac ar ddarparu adnoddau am ddim i ysgolion i gefnogi dysgu o bell.

Drwy gydweithio â gwahanol sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau yn y trydydd sector, y sector creadigol a chyhoeddwr, sicrhawyd bod amrywiaeth o adnoddau ar gael yn ddigidol. Rhyddhawyd rhaglenni S4C ar Sianel S4C ar Hwb i gefnogi dysgu ac addysgu'r Gymraeg (e.e. Fflic a Fflac), iechedd a lles (e.e. Swshaswyn) ynghyd â rhaglenni ffeithiol (Cyfres y beirdd) a ffilmiau (Patagonia). Rhyddhawyd 132 o lyfrau Cynllun Darllen Rhydychen a 65 teitl o'r cynllun darllen Prosiect X yn ddigidol ar Hwb, a oedd yn golygu eu bod ar gael am ddim i rieni ac ysgolion. Rhoddwyd arian ychwanegol i gyflenwyr drosi adnoddau yn e-lyfrau i'w cynnwys ar ffolio, plattform e-lyfrau newydd y Cyngor Llyfrau.

Drwy law Cyngor Llyfrau Cymru, ariannwyd gwahanol gynlluniau i ddarparu llyfrau angenrheidiol i ysgolion. Roedd Cynllun Rhestr Aur yn darparu stoc o lyfrau darllen Cymraeg o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Blwyddyn 9, er mwyn sbarduno diddordeb darllenwyr ifanc mewn darllen er pleser yn y Gymraeg. Ariannwyd Cynllun Iechyd Da i sicrhau bod ystod o lyfrau dwyieithog ar gael yn rhad ac am ddim i ysgolion yng Nghymru i gefnogi iechedd a lles plant.

Ariannwyd Cyngor Llyfrau gan y Llywodraeth i weithio gyda'r Reading Agency i sicrhau bod y teitlau sydd ar restr Darllen yn Well – llyfrau iechedd meddwl i blant – ar gael yn Gymraeg. Yn dilyn hyn, sicrhodd y Llywodraeth bod copïau o'r 22 teitl Cymraeg a'r 15 teitl Saesneg yn cael eu hanfon at holl ysgolion cynradd Cymru. Mae'r llyfrau'n darparu gwybodaeth a chynghor ar sut i ddelio â materion fel deall a rheoli teimladau, delio ag adegau anodd a chyflyrau iechedd penodol.

Yn ogystal â hyn, darparwyd setiau o lyfrau newydd o Gymru, yn Gymraeg a Saesneg, i lyfrgelloedd yng Nghymru. Mae'r rhain yn nofelau, llyfrau dysgu Cymraeg a theitlau ar Gymru a hanes Cymru a gyhoeddwyd yn 2020. Roedd hyn yn sicrhau bod digon o adnoddau ychwanegol ar gael gan lyfrgelloedd i fodloni gofynion newydd eu defnyddwyr drwy raglenni megis 'Clicio a chasglu'. Roedd hyn hefyd yn ffordd o gefnogi'r cyhoeddwr, siopau llyfrau a Chanolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau, gan fod y pandemig wedi effeithio ar werthiant teitlau newydd.

Ers i'r Gweinidog Addysg gynnal uwch-gynhadledd yn 2017, mae grŵp o randdeiliaid wedi cynnig y ffordd ymlaen o ran sefydlu isadeiledd ar gyfer darparu adnoddau'n ddwyieithog ar yr un pryd yn y dyfodol. Ni lwyddwyd i gyflwyno'r isadeiledd newydd yn ystod y flwyddyn oherwydd blaenoriaethau eraill yn ystod y pandemig ond parhawyd i ddatblygu'r argymhelliad ymhellach ac i gaffael y cyngor cyfreithiol a'r llywodraethiant angenrheidiol.

Dyfarnwyd grant i Urdd Gobaith Cymru greu plattform adnoddau addysgol i gyd-fynd â dathliadau canmlwyddiant yr Urdd yn 2022.

Er mwyn cefnogi cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol ac Uwch, cyhoeddwyd dros 30 teitl newydd yn ystod 2020-21 drwy grant a ddarparwyd i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), gyda'r nod o ddarparu fersiynau Cymraeg o werslyfrau i gefnogi cymwysterau.

Rydym ni'n parhau i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i adnabod yr angen am adnoddau digidol dwyieithog i fyfyrwyr ôl-16 ym meysydd iechyd a gofal, gofal plant, amaethyddiaeth, a gwasanaethau cyhoeddus i'w defnyddio ar gyfer darpariaeth dysgu cyfunol. Rydym ni hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i glustnodi adnoddau i gefnogi prentisiaethau.

Ariannwyd sawl adnodd Cymraeg ar gyfer pobl ag anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y flwyddyn dan sylw. Comisiynwyd fersiwn Cymraeg o raglen teipio cyffwrdd (*Touchtype*) a ddefnyddir gan blant dall neu sydd â nam ar eu golwg. Dyrannwyd grant i RNIB Cymru hefyd i greu cynllun darllen Braille Cymraeg newydd, ynghyd â diwedddaru'r cwrs Braille Cymraeg unedig i bobl sy'n dymuno dysgu sut i ysgrifennu Braille Cymraeg neu sydd am ddod yn drawsgrifwyr.

Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Mae cynyddu niferoedd yn un o ddau brif darged *Cymraeg 2050*, ond law yn llaw â hynny, mae defnydd o'n hiaith ni yn hollbwysig a dyma ail bennawd ein strategaeth. Rydym ni'n credu bod y Gymraeg yn perthyn i bawb ac rydym ni am i bawb, waeth faint o Gymraeg sydd ganddyn nhw, deimlo'n hyderus i'w defnyddio bob dydd. Ac rydym ni'n creu cyfleoedd ar gyfer y defnydd dyddiol hwnnw.

Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?

Rydyn ni eisiau cynyddu canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o'n hiaith, i 11% erbyn 2021 (ac 20% erbyn 2050).

Mae'r darged hon hefyd yn un o'r dangosyddion cenedlaethol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.²⁴

Sefydlwyd saith nod llesiant er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac maent wedi'u cynnwys yn y gyfraith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n ofynnol bob blwyddyn i gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi cipolwg ar gyflwr y wlad a'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y saith nod llesiant drwy'r 46 dangosydd cenedlaethol.

Mae'n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd o wneud hynny yw drwy gynnal arolygon defnydd iaith achlysurol. I'r perwyl hwnnw, dechreuodd y gwaith o gynnal Arolwg Defnydd Iaith newydd ym mis Gorffennaf 2019, a'r bwriad oedd iddo barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Serch hynny, oherwydd COVID-19, bu'n rhaid atal yr arolwg ar ei ganol ym mis Mawrth 2020.

Cyhoeddwyd y canfyddiadau cychwynnol ym mis Medi 2021²⁵, a oedd yn adrodd ynghylch pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith, eu gallu yn yr iaith a pha bryd wnaethant ddechrau dysgu siarad yr iaith o dan *Nod 6: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*. Mae hefyd yn cynnwys data ar gyfer y dangosydd cenedlaethol am y defnydd o'r Gymraeg.

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 yn dangos bod y ganran o'r boblogaeth tair oed neu'n hŷn a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau yn 10%, yr un ganran a welwyd yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15.


Er mai arolygon defnydd iaith sy'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd tuag at y targed hwn, er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd, rydym hefyd yn

²⁴ <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf>

²⁵ <https://llyw.cymru/llesiant-cymru-2021>

defnyddio canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer oedolion (16 oed neu hŷn).

Siart 11: Canran y bobl 16 oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae canran yr oedolion 16 oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, wedi aros yn eithaf sefydlog dros y chwe mlynedd diwethaf, yn debyg iawn i ganfyddiadau'r arolwg defnydd iaith. 10% oedd y ganran yn 2020-21. Er nad oedd cynnydd wedi bod yn y dangosydd cenedlaethol ar ddefnydd rhwng Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 a 2019-20, wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg yn unig (yn hytrach na'r boblogaeth gyfan), gallwn weld fod dros hanner (56%) y siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd yn 2019-20 (waeth beth fo lefelau eu rhuglder) o'i gymharu â 53% yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15. Roedd hefyd bron i un ym mhob pump yn siarad yr iaith bob wythnos (19%, union yr un ganran ag yn 2013-15). Roedd y canrannau hyn yn amrywio yn ôl oedran, ac ar eu huchaf ar gyfer y rhai 3 i 15 oed, ac ar eu hisaf ar gyfer y rhai 16 i 29 oed.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi gweddill canfyddiadau Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 mewn bwletinâu ystadegol ar wahân, yn ôl thema, gan gyfuno data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 lle bo'n berthnasol.

Defnydd iaith yn y gymuned

Yn sgil COVID-19, rydym wedi cyhoeddi canfyddiadau arolwg²⁶ a oedd yn edrych ar sut wnaeth y pandemig effeithio ar grwpiau a mudiadau cymunedol Cymraeg. Cynhaliwyd arolwg ar-lein rhwng 14 Medi a 9 Hydref 2020.

²⁶ <https://llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg>

Gofynnwyd i grwpiau hysbys gwblhau'r arolwg, a oedd yn casglu tystiolaeth ar sut oedd y grwpiau wedi gweithredu cyn y pandemig, pa un a oedden nhw wedi gallu gweithredu ers cychwyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, a beth oedd eu disgwyliadau ar gyfer y dyfodol. Cafwyd 1,092 ymateb i'r arolwg.

Roedd 20% o'r grwpiau a ymatebodd wedi gallu addasu eu gweithgareddau er mwyn gweithredu mewn rhyw ffordd ers dechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth.

Mae'n bosibl bod yr 80% arall wedi cadw mewn cysylltiad â'u grŵp, ond heb barhau i weithredu. O'r rhain nododd:

- 93% mai'r rheswm dros beidio â gweithredu oedd nad oedd 'yn ymarferol i barhau o dan gyfyngiadau a rheoliadau COVID-19'.
- 28% fod eu haelodau'n teimlo 'ofn neu ddim yn ddiogel'. Grwpiau cymdeithasol a phartneriaethau cymunedol, grwpiau crefyddol a changhennau Merched y Wawr oedd fwyaf tebygol o nodi mai dyma'r rheswm dros beidio â gweithredu.

Ar gyfer yr holl weithgareddau a oedd fel arfer yn cael eu cyflawni gan grwpiau cymunedol cyn y pandemig, roedd dros ddwy ran o dair (68%) ohonynt heb gael eu cynnal o gwbl ers dechrau'r cyfnod clo:

- Teithiau wedi eu trefnu, gwyliau / eisteddfodau, ymgyrchoedd codi arian, perfformiadau ac ymarferion cerddorol oedd y gweithgareddau a oedd fwyaf tebygol o fod wedi peidio â digwydd.
- Dysgu (er enghraifft, gweithgareddau ar gyfer plant neu'r a rheiny oedd yn dysgu Cymraeg) oedd y gweithgareddau mwyaf tebygol o fod wedi eu cynnal ar-lein (31% wedi eu cynnal ar-lein) a gwirfoddoli yn y gymuned oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael ei addasu ond heb ddigwydd ar-lein (wedi digwydd yn yr awyr agored fel arfer).
- Roedd grwpiau cymunedol lle roedd y trefnwyr yn derbyn cyflog yn fwy tebygol o fod wedi llwyddo i weithredu o'u cymharu â grwpiau a oedd yn dibynnu ar wirfoddolwyr yn unig.

Ceir mwy o wybodaeth yma, Gweler [Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg](#)

Defnydd iaith yn yr ysgol – Y Siarter Iaith

- Y Siarter Iaith yw ein rhaglen sy'n gweithredu mewn ysgolion i greu dinasyddion dwyieithog y dyfodol, a fydd yn:
- Siaradwyr Cymraeg greddf, naturiol, cyfforddus a hyderus.
- Defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd eu hunain.
- Siarad Cymraeg â'i gilydd p'un a ydyn nhw'n dod o gartrefi Cymraeg ai peidio.
- Hyderus i ddefnyddio eu Cymraeg a bod ag agwedd gadarnhaol tuag ati.

Mae pedwar cynllun gwahanol yn rhan o'r Siarter:

- Siarter Iaith ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd Cymraeg.
- Siarter Iaith Uwchradd ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd Cymraeg.
- Cymraeg Campus ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
- Cymraeg Bob Dydd ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Rydym yn cyllido'r Urdd i ddarparu Cymraeg Bob Dydd i'r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, a'r consortia addysg rhanbarthol neu siroedd unigol sy'n darparu'r tri chynllun arall.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, dosbarthwyd dros 8,500 o gopiâu o ail lyfr Seren a Sbarc i holl ysgolion cynradd Cymru am ddim ym mis Hydref. Cyhoeddwyd y llyfr mewn cydweithrediad ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ac mae'n dilyn hynt ac helynt Seren a Sbarc ar wibdaith drwy hanes Cymru. Bydd y trydydd llyfr yn y gyfres yn cael ei gyhoeddi yn fuan.

6. Y gweithle

Un o amcanion *Cymraeg 2050* yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan fod *"y gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ... [ac yn] gyfle i ddefnyddio, ymarfer a dysgu'r Gymraeg."*

Cymraeg Gwaith

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cyrsiau sy'n amrywio o gyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein i gyrsiau preswyl dwys. Yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd ohoni, mae Cymraeg Gwaith hefyd yn caniatáu i gyrff ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell i'w defnyddwyr.

Er gwaetha'r pandemig, roedd 2020/21 yn flwyddyn lwyddiannus i'r rhaglen. Llwyddwyd i ddenu 135 o gyflogwyr newydd i fanteisio ar gyrsiau Cymraeg Gwaith – y nifer uchaf erioed mewn un flwyddyn. Fe wnaeth 11,371 o weithwyr gwblhau cyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein o dan y rhaglen, gyda 496 yn cwblhau cyrsiau dwys.

Fe brofodd y cyrsiau sectorol yn boblogaidd unwaith eto yn ystod 2020/21, gyda 567 o weithwyr yn cymryd rhan yn y cyrsiau i'r sectorau Addysg Bellach ac Uwch, 134 yn y rhaglen i awdurdodau lleol, 336 yn y rhaglen i'r sector iechyd a 268 yn y rhaglen benodol ar gyfer gweithwyr gofal y blynyddoedd cynnar.

Y defnydd o'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru

Lansiwyd strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad, *'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd'*²⁷, fis Ebrill 2020. Mae'n gosod y nod i ni fod yn sefydliad wirioneddol ddwyieithog erbyn 2050. Mae hyn yn

²⁷ <https://llyw.cymru/cymraeg-maen-perthyn-i-ni-i-gyd-html>

golygu y byddai'r holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn gallu deall Cymraeg a fyddai, yn ei dro, yn galluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd. Byddai hynny'n arwain at gynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r iaith.

Rydym yn gwybod bod y cysylltiad rhwng iaith a gwaith yn un pwysig. Mae arolygon²⁸ yn dangos fod defnydd y Gymraeg yn y gweithle yn arwyddocaol, gyda phobl mewn cyflogaeth yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r Gymraeg yn sgil alwedigaethol, ac yn un y dylid ei chydabod a'i defnyddio'n well. Mae hyn oll yn dylanwadu ar benderfyniadau unigolion i fynd ati i ddysgu Cymraeg, ac ar benderfyniadau rhieni i anfon eu plant i ysgolion Cymraeg.

Ein nod, felly, yw y dylai Llywodraeth Cymru, yn raddol, ddod yn sefydliad lle mae'n arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio mewn modd naturiol a chyfnewidiol.


Yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu strategaeth '*Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*', mae cryn waith wedi ei wneud i wreiddio amcanion ac egwyddorion y strategaeth yn y sefydliad. I gychwyn, fe wnaethom ganolbwyntio ar yr egwyddorion sy'n graidd i gyfnod cyntaf y strategaeth rhwng 2020 a 2025, sef:

- Arweinyddiaeth: rydym wrthi'n datblygu dealltwriaeth ein harweinwyr o'r arweiniad personol y disgwylir ganddynt i hyrwyddo'r Gymraeg yn eu timau, i annog eu staff i ddysgu, datblygu a defnyddio'r Gymraeg, a sicrhau eu bod yn deall eu rôl wrth brif ffrydio'r iaith i'w meysydd gwaith.
- Dysgu: rydym yn parhau i fuddsoddi i ddatblygu sgiliau ein staff a chynnig cyfleoedd newydd a gwell i gaffael yr iaith (megis cyrsiau hunan-gyfarwyddo, cyrsiau dwys, a methodolegau gwahanol) yn ogystal â chyflwyno'r gofyniad i bob aelod newydd o staff feddu ar Gymraeg cwrteisi.
- Recriwtio: rydym yn ystyried ein prosesau recriwtio, a sut y gallwn roi gwell pwyslais ar sgiliau Cymraeg wrth recriwtio.
- Technoleg: rydym yn adolygu ein darpariaeth technoleg i staff er mwyn cynnig gosodiadau Cymraeg yn ddiofyn i'n siaradwyr Cymraeg.
- Rydym wrthi'n rhoi rhaglenni peilot ar waith i gynyddu defnydd y Gymraeg rhwng cydweithwyr yn y gweithle.

Wrth ddatblygu'r strategaeth, fe wnaethom edrych ar arfer da mewn sefydliadau eraill, a dod i ddeall yn well sut allwn ni arwain y ffordd drwy ein defnydd o'r Gymraeg. Cawsom wahoddiad eleni i ddatblygu astudiaeth achos i'w chynnwys ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn i sefydliadau eraill ddeall sut y gallan nhw helpu i wireddu targed *Cymraeg 2050* o ddyblu'r ganran o'r boblogaeth sy'n siarad y Gymraeg yn ddyddiol.

²⁸ <https://llyw.cymru/ble-phryd-y-mae-pobl-yn-dysgu-gymraeg-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-fawrth-2019>

Siart 12: Canran gweithlu Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith, yn ôl pa mor aml y maent yn ei defnyddio



Ffynhonnell: Arolwg Pobl (Llywodraeth Cymru) a Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (Swyddfa Cabinet y DU)

- (a) Ni chafodd yr arolwg ei chynnal yn 2015. Yn 2016 cafodd y categori “Mwy o Saesneg na Chymraeg” ei rannu'n dri chategori pellach, sef “mwy o Saesneg na Chymraeg ond yn siarad Cymraeg bob dydd, yn wythnosol, neu'n llai aml nag wythnosol”.
- (b) Mae'r canlyniadau a ddangosir ar gyfer 2016 a 2019/20 wedi'u cymryd o'r Arolwg Pobl a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016 a mis Mawrth 2020 (gan ystyried y flwyddyn o Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020). Mae'r canlyniadau eraill wedi'u cymryd o Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (sy'n cael eu cynnal gan Swyddfa Cabinet y Deyrnas Unedig ym mis Hydref fel arfer). I raddau helaeth, yr un holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddau arolwg ac fe'u cynhaliwyd yn yr un ffordd. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Pobl 2020 wedi cael ei gynnal ym mis Mawrth 2020, roedd y gyfradd ymateb ychydig yn is na'r blynnyddoedd blaenorol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd COVID-19.

Mae data Siart 12 yn dangos fod 30% o weithlu Llywodraeth Cymru meddu ar sgiliau iaith Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, nod Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg o fewn y sefydliad yw y bydd yr holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn gallu deall Cymraeg erbyn 2050. Bydd hyn yn galluogi'r staff i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd, ac fe fydd yna gynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r iaith o ganlyniad i hynny.

Drwy adeiladu ar y seilwaith a osodwyd yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun, byddwn yn raddol, yn cyflwyno lefel “cwrteisi” sylfaenol ar gyfer sgiliau Cymraeg. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfrwng cwrs cynefino sylfaenol yn ymwneud â'r Gymraeg, a fydd yn cynorthwyo staff

newydd i gyrraedd y lefel 'cwrteisi' sylfaenol yn y Gymraeg. Bwriedir i hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer proses o welliant parhaus mewn perthynas â sgiliau Cymraeg – proses a gefnogir gan hyfforddiant a chyfleoedd datblygu eraill.

Cyrsiau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Lansiwyd y cynllun hwn ar gyfer staff Llywodraeth Cymru yn ystod Hydref 2020. Mae'r sesiwn rithwir peilot wedi galluogi cyfranogwyr i ddod i wybod mwy am y Gymraeg a '*Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*', strategaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i defnydd mewnol. Mae'r sesiwn hefyd wedi rhoi cyfle i'r tiwtor ofyn cwestiynau treiddgar a thrafod syniadau, teimladau a phrofiadau unigol cyfranogwyr ynglŷn â'r Gymraeg.

Yn dilyn y peilot llwyddiannus, bydd y cwrs nawr yn cael ei gynnig fel rhan arferol o'n darpariaeth cyrsiau Cymraeg.

Hefyd am y tro cyntaf, cynhaliwyd sesiynau cynefino Cymraeg penodol ar gyfer y garfan newydd o Uwch weision sifil a recriwtiwyd i Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

Dosbarthiadau wythnosol

Cawsom 214 o geisiadau gan aelodau staff Llywodraeth Cymru i fynychu dosbarthiadau wythnosol Cymraeg ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020/21, sydd yn dangos cynnydd o 44% ar geisiadau'r llynedd.

Cafodd cwrs 6 mis *Say Something in Welsh* ei gynnal ar gyfer 59 aelod o staff yn ystod 2020-2021. Yn dilyn gwerthusiad manwl, a oedd yn cynnwys adborth cadarnhaol gan y staff, bydd y rhaglen nawr yn dod yn rhan barhaol o'r gyfres o gyfleoedd dysgu sydd ar gael i staff Llywodraeth Cymru.

7. Gwasanaethau

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg

Ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar reoliadau drafft i wneud safonau'n gymwys i reoleiddwyr proffesiynol ym maes iechyd. Cafodd yr ymgynghoriad hwnnw ei ymestyn tan Hydref 2020 oherwydd y pandemig. Er i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu dadansoddi, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen i wneud y rheoliadau yn ystod tymor y Senedd ddiwethaf.

Byddwn yn gweithredu safonau ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr yn y sector iechyd, cyrff cyhoeddus sy'n dal y tu allan i'r gyfundrefn safonau ar hyn o bryd a chwmnïau dŵr; a dechrau'r gwaith o weithredu safonau ar gyfer cymdeithasau tai, yn ystod tymor y Senedd hon.

ARFer

Mae'r prosiect ARFer yn arbrofi ag 'addewidion' ieithyddol er mwyn newid arferion defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliad, a'u helpu i gyflwyno gwasanaethau yn well.

Prifysgol Bangor sy'n gweinyddu'r prosiect drwy gyfrwng grant gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas y prosiect yw creu cist arfau i sefydliadau eraill fynd i'r afael â newid ymddygiad ieithyddol rhyngbersonol yn y gweithle. Yn sgil COVID-19, rydym wedi ymestyn hyd y contract er mwyn iddo edrych ar sut y mae arferion iaith pobl yn y gwaith wedi newid gyda chynifer o bobl bellach yn gweithio o'u cartrefi. Rydym wedi bod yn dylunio ac yn paratoi'r cist arfau ac yn ei dreialu yn ystod 2021-22.

Bydd gwella sefyllfa'r Gymraeg yn y gweithle hefyd yn ein cynorthwyo i ddarparu rhagor o wasanaethau Cymraeg, a'r rheiny'n wasanaethau gwell.

Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog

Mae'r rhaglen beilot hon yn cael ei hwyluso gan bartneriaeth Cadenza, Academi Wales a Phrosiect 2050 yn Llywodraeth Cymru.

Rhaglen 'iaith mewn arweinyddiaeth' yw hon. Mae'r sawl sy'n mynychu'n cael dysgu am sefyllfa'r Gymraeg, a chnoi cil ar eu barn a'u profiadau nhw o ddwyieithrwydd. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â meysydd megis:

- Bias isymwybodol
- Iaith a phŵer
- Iaith a diwylliant
- Ymddygiadau arweinwyr
- Gweledigaeth a Gwerthoedd

Yn y lle cyntaf, rhaglen a gynhaliwyd wyneb yn wyneb oedd hon, ond yn sgil y pandemig, mae bellach yn cael ei chynnal yn electronig.

Helo Blod

Mae Helo Blod yn helpu unigolion, busnesau, elusennau a chyrff y trydydd sector i ddefnyddio rhagor o Gymraeg drwy gynnig cyfieithiadau am ddim hyd at 500 gair y mis, yn ogystal â gwasanaeth gwirio testun Cymraeg. Mae hefyd yn ateb ymholiadau o bob math gan fusnesau am y Gymraeg, yn darparu nwyddau 'laith Gwaith' ac yn cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth mewn sefydliadau perthnasol. Gellir cysylltu â Helo Blod dros y ffôn, drwy'r wefan, e-bost, a'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod 2020-21, fe wnaeth gwasanaeth Helo Blod:

- Dderbyn 2,208 o geisiadau cymorth a chyfieithu – 1,283 gan fusnesau, 625 gan elusennau a 300 gan unigolion.

- Cyfieithodd Helo Blod 36,408 o eiriau o Saesneg i'r Gymraeg a gwriwyd 17,473 o eiriau Cymraeg.
- Crëwyd 1,129 o gyfrifon ar gyfer y gwasanaeth yn y cyfnod: 612 gan fusnesau, 209 gan elusennau a 308 gan unigolion.
- Crëwyd 49 o gyfrifon gan fusnesau ac elusennau y tu allan i Gymru.
- Caerdydd (104) oedd yr ardal gyda'r nifer fwyaf o gyfrifon newydd yn cael eu creu gan fusnesau ac elusennau, gyda Gwynedd yn ail (70).
- Y sector bwyd a diod (93) oedd gyda'r nifer uchaf o fusnesau'n creu cyfrifon gyda'r diwylliant creadigol (84) yn ail, a twristiaeth (72) a manwerthu (70) hefyd yn uchel.

Gwerthuso 'Mwy na geiriau'

Cyhoeddwyd *Mwy na geiriau*²⁹, fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym maes iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yn 2016.

Bwriad y fframwaith oedd sicrhau bod sefydliadau iechyd yn cydnabod bod iaith yn rhan gynhenid o ofal, a bod pobl sydd angen gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnig.

Comisiynwyd gwerthusiad³⁰ annibynnol o'r strategaeth *Mwy na geiriau* ym mis Hydref 2018. Nod y gwerthusiad yw asesu cynnydd a mesur ei heffaith yn y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol yng Nghymru. Mae canfyddiadau a chanlyniadau cam cyntaf y gwerthusiad, a'r gwaith a wnaed yn ystod Ebrill 2019 – Mawrth 2020, wedi ei ategu mewn Adroddiad Theori Newid³¹ a gyhoeddwyd yn Ebrill 2020. Bu hyn yn sail i ddatblygu'r fframwaith gwerthuso ar gyfer y cam nesaf, sy'n cynnwys gwaith maes i gasglu lleisiau a phrofiadau pobl, gan gynnwys y claf (yn enwedig y rhai mwyaf bregus), eu teuluoedd a'u gofalmwr.

Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda grwpiau cleifion a darparwyr gwasanaethau, ond bu'n rhaid newid y dull hwn oherwydd y sefyllfa barhaus gyda COVID-19.

Penderfynwyd cynnal cyfweiliadau'n rhithiol neu dros y ffôn er mwyn cadw at y cyfyngiadau a oedd ar waith ar y pryd. Ail-ddechreuodd y gwerthusiad a'r gwaith maes ym mis Awst 2020. Penderfynwyd hefyd y dylai'r gwaith maes ystyried effaith COVID-19 ar wasanaethau Cymraeg.

Y prif faterion a godwyd wrth i'r gwaith maes fynd rhagddo oedd:

- Pwysigrwydd arweinyddiaeth.
- Bod darparu gwasanaethau / y cynnig gweithredol yn anghyson ledled Cymru.

²⁹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/fframwaith-strategol-olynol-ar-gyfer-gwasanaethau-cymraeg-mewn-iechyd-gwasanaethau-cymdeithasol-a-gofal-cymdeithasol-2016-2019.pdf>

³⁰ <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-mwy-na-geiriau-adroddiad-terfynol>

³¹ <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-mwy-na-geiriau-theori-newid>

- Bod angen cynyddu argaeledd cyrsiau Cymraeg ym maes iechyd a gofal.

Parhaodd y sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i adrodd ar weithrediad *Mwy na geiriau* yn ystod y cyfnod hwn.

8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Mae sefydlu arferion defnydd iaith cadarnhaol a rhoi cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio Cymraeg yn gymdeithasol yn hollbwysig wrth i ni weithio tuag at y nod o ddyblu defnydd iaith. Wrth reswm, effeithiodd COVID-19 ar ein defnydd o'r Gymraeg yn ystod 2020-21. Rydym eisoes wedi crynhoi canfyddiadau ein harolwg i'r effeithiau hyn ar grwpiau cymunedol Cymraeg uchod (Gweler ['Defnydd iaith yn y gymuned'](#)). Ar sail yr arolwg hwnnw, ym Mehefin 2020 sefydlodd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg is-grŵp 'Cynyddu Defnydd y Gymraeg yn Gymunedol'. Cynhaliodd yr is-grŵp gyfarfodydd misol i drafod effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg, a phenllanw'r gwaith oedd cyhoeddi'r adroddiad *Arolwg o Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg*.

Ar sail yr adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd yr is-grŵp gyfres o argymhellion³² o dan y penawdau canlynol:

- Argymhelliad 1 – Ailddechrau grwpiau cymunedol Cymraeg
- Argymhelliad 2 – Cynhwysedd digidol
- Argymhelliad 3 – Clybiau chwaraeon a grwpiau celfyddydol / perfformio
- Argymhelliad 4 – Cynllunio iaith ficro a swyddogaeth y Mentrau Iaith
- Argymhelliad 5 – Ariannu prosiectau
- Argymhelliad 6 – Cydbwysedd rhwng y cenedlaethau
- Argymhelliad 7 – Mentrau cymdeithasol a chydweithredol
- Argymhelliad 8 – Strategaethau Hybu Sirol
- Argymhelliad 9 – Rhannu gwybodaeth

Bydd gweithredu'r argymhellion hyn yn ymbweru cymunedau ac yn gwneud y gwerth gorau posibl o adnoddau gan ein helpu i ddiogelu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol yn y dyfodol.

Annog arferion iaith cadarnhaol

Yn ystod 2020-21, dyrannwyd grantiau i'n partneriaid er mwyn hybu a hyrwyddo'r iaith ar lefel gymunedol ac yn genedlaethol, hynny yw – cynyddu defnydd iaith. Mae'r cyllid hwn yn galluogi ein partneriaid i ddatblygu a chynnal amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau i blant a phobl ifanc er mwyn creu pont rhwng addysg ffurfiol a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn gymdeithasol.

Mae gwaith yr Urdd, y Clybiau Ffermwyr Ifanc, y Mentrau Iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol oll yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

Fe wnaethom ni gomisiynu gwerthusiad o'r Siarter Iaith³³ a rhaglenni cysylltiedig

³² [Datganiad Ysgrifenedig: Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: argymhellion Is-grŵp Cynyddu Defnydd y Gymraeg \(16 Rhagfyr 2020\) | LLYW.CYMRU](#)

³³ <https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-siarter-iaith>

(Cymraeg Campus, Siarter Iaith ysgolion uwchradd, a Cymraeg Bob Dydd) er mwyn ystyried beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid o ran datblygu arferion iaith yn yr ysgol. Cafodd yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi fis Gorffennaf 2020.

Mae'r adroddiad yn adnabod y potensial i gryfhau'r cysylltiad rhwng nodau'r Siarter Iaith a nodau sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithio i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn amlygu'r angen i archwilio mewn mwy o ddyfnder y llwybrau rhwng gweithgareddau'r Siarter Iaith a'u deilliannau disgwylidig.

Grantiau

Yn 2020-21, rhoddwyd grant o dros £4m i Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Merched y Wawr, y Mentrau Iaith, yr Urdd a'r rhwydwaith o bapurau bro i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Roedd hwn yn gyfnod anodd i nifer o'n partneriaid wrth iddyn nhw golli incwm yn sgil gorfod canslo digwyddiadau oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, llwyddodd y sefydliadau i gynnal amrywiaeth o weithgareddau ar-lein ac wyneb yn wyneb pan oedd cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu. Llwyddodd y sefydliadau hyn i arloesi mewn cyfnod heriol a dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio a fydd yn siŵr o barhau pan fydd y pandemig wedi hen fynd heibio.

- Trefnodd y Mentrau Iaith gyfanswm o 4,686 o weithgareddau ar-lein, gyda 584,268 yn ymuno neu'n cymryd rhan, a 249 o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb gyda 3,139 yn mynychu.
- Cafodd Tafwyl, gŵyl Gymraeg Menter Caerdydd, ei chynnal ar-lein gan ddenu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r byd. Bu 8,000 o bobl yn gwyllo a gwrando o'r Unol Daleithiau, Japan, yr Iseldiroedd, Sbaen a Ffrainc i enwi dim ond rhai.
- Fe wnaeth tua hanner y papurau bro sy'n derbyn grant gyhoeddi'n ddigidol yn ystod y cyfnod clo, a hynny naill ai drwy gyfrwng prosiect Bro 360 neu ar eu liwt eu hunain.
- Fe wnaeth Merched y Wawr gynnal 806 o weithgareddau ar-lein, gyda 16,033 yn ymuno neu'n cymryd rhan, a 1,767 o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb gyda 16,750 yn mynychu. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys sefydlu gwasanaeth *Ffoniwch ffrind* i fynd i'r afael ag unigedd a dysgu aelodau sut i ddefnyddio Zoom a WhatsApp er mwyn gallu cadw mewn cysylltiad yn ystod y pandemig.
- Roedd rhaid i Urdd Gobaith Cymru ohirio Eisteddfod yr Urdd 2020 a chynnal Eisteddfod T yn ei le. Fel rhan o'r ŵyl hon, cymerodd 7,000 o gystadleuwyr ran mewn cystadlaethau traddodiadol fel corau a chanu cerdd dant, yn ogystal â nifer o gystadlaethau newydd fel *lip sync*, dynwared a sgetshys i'r teulu cyfan. Roedd yn gyfle i dynnu pawb ynghyd, boed yn Eisteddfodwyr profiadol neu beidio, i fwynhau ein diwylliant mewn modd hwyllog.

- Ddiwedd 2020, cyhoeddodd Urdd Gobaith Cymru eu bwriad i ohirio Eisteddfod yr Urdd 2021 hefyd a hynny hyd nes Mai 2022 er mwyn diogelu iechyd a lles aelodau yn sgil COVID-19. Mae'n bwriadu cynnal Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych yn 2022.
- Am yr un rheswm, bu'n rhaid gohirio Eisteddfod Genedlaethol 2020 a chyflwyno Eisteddfod AmGen yn ei le ar draws nifer o blatfformau digidol, radio a theledu. Roedd AmGen yn llwyddiant mawr – denodd gynulleidfaoedd newydd ar draws y byd, a galluogi pobl o Gymru a Phrydain na fyddent fel arfer yn mynychu'r Eisteddfod i brofi diwylliant Cymraeg. Rhwng 1-8 Awst 2020, cynhaliwyd dros 450 o sesiynau a gafodd eu gwyllo bron i 280,000 o weithiau ar YouTube a Facebook, heb gynnwys platfformau digidol eraill a radio a theledu.
- Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddwyd y byddai Eisteddfod Genedlaethol Tregaron yn cael ei gohirio am flwyddyn arall hefyd a hynny nes Awst 2022. Bydd hyn yn golygu symud Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd i Awst 2023, ac Eisteddfod Rhondda Cynon Taf i 2024.

Siaradwyr Cymraeg newydd

Rydym wedi bod yn datblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi siaradwyr Cymraeg newydd, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid yn y gymuned. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2018/9, mae'r cynllun 'Siarad' yn parhau i gynnig cefnogaeth i ddysgwyr ym mhob rhan o Gymru ddefnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr mwy hyderus mewn cyd-destun anffurfiol.

Mae disgwyl i'r parau dreulio o leiaf 10 awr gyda'i gilydd yn defnyddio'r Gymraeg. Yn sgil COVID-19, a'r anawsterau i gwrdd wyneb yn wyneb, fe ail-lansiwyd y cynllun ar-lein yn Hydref 2020. Nod y cynllun yw magu hyder dysgwyr trwy ddarparu cyfleoedd am sgwrs anffurfiol, sy'n digwydd dros y ffôn neu ar lwyfannau cyfryngau digidol megis Skype, WhatsApp, FaceTime, Zoom, a Messenger.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi chwarae rôl bwysig wrth helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd. Cynhaliwyd Dydd Miwsig Cymru (DMC) am y chweched tro ddydd Gwener, 5 Chwefror 2021 ac yn wir am y seithfed tro ar 4 Chwefror 2022. At ddiben y flwyddyn adrodd sydd dan sylw yn yr adroddiad blynyddol hwn, byddwn yn cyfeirio at DMC 2021 yma.

Nod ymgyrch genedlaethol DMC yw cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i gynulleidfa newydd ac annog pobl i gefnogi'r sîn gerddoriaeth Gymraeg. Y bwriad yw manteisio ar gryfder ac amrywiaeth cerddoriaeth Gymraeg er mwyn cyflwyno'r iaith i gynulleidfa newydd mewn ffordd ddeniadol a chymdeithasol. Fel rhan o'r ymgyrch, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Prosiect Gorwelion y BBC, EE, Pyst, S4C, Radio Cymru, prosiect Forte ar gyfer artistiaid y dyfodol, y Mentrau Iaith a llawer mwy. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, digwyddiad ar-lein oedd hwn yn 2021. Yn ôl yr arfer, roedd yn ddatliad o gerddoriaeth Gymraeg ac yn gyfle i gynyddu gwelededd y Gymraeg, cynyddu diddordeb mewn cyfleoedd dysgu Cymraeg, newid canfyddiad pobl o'r iaith, a rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r iaith. Ond symudodd y cynllun i dir newydd eleni, gyda 5,000 yn mynychu'r ŵyl ddigidol gyda

chyrhaeddiad o 260,108 yn gwylio ein cynnwys fideo (*video views*).

Drwy gymorth y cyfryngau, cafodd #hashnodau Cymraeg a Saesneg eu defnyddio 9,868 o weithiau ar Twitter eleni, sydd wedi cynyddu o 8,982 yn 2020.

Defnyddiwyd yr hashnodau gan fusnesau ar draws y DU, cyrff llywodraethol, grwpiau cymunedol, busnesau mawr, cymunedau o Gymry dramor, a sefydliadau cerddoriaeth a diwylliannol gan greu ac atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol ac i sicrhau cyfalaf cymdeithasol yn Gymraeg.

Roedd eitemau ar BBC Radio 4 (Rhaglen Today a Front Row), BBC Radio 5 Live (Chiles on Friday ac Elis James and John Robins show), BBC Radio Wales (sawl rhaglen), Radio Cymru a Radio Cymru 2 (sawl rhaglen gan gynnwys marathon Huw Stephens am 11 awr!).

Cyhoeddwyd erthyglau yn '*The i newspaper*', nifer o bapurau lleol gan gynnwys y *South Wales Guardian*, *Monmouthshire Free Press*, *North Wales Chronicle* a hyd yn oed eitem yn yr *Illinois News Live*.

Gyda 43 o berfformwyr a phartneriaid yn cymryd rhan, llwyddodd yr ŵyl i dynnu pobl ynghyd, gyda 119 o bobl ifanc yn cystadlu mewn ysgol hip hop, i greu rap 'Beth mae'r iaith yn feddwl i ti a dy ardal?' gyda'r enillydd yn cael ei ddangos ar Stwnsh Sadwrn ar S4C.

'Mynychodd' bron i 2,000 ddisgo Mr Urdd ar sianel YouTube yr Urdd. At hynny, cafodd fideos ar ein sianel YouTube eu gwylio 19,800 gwaith yn ystod wythnos DMC.

Yn dilyn llwyddiant y cynllun llynedd, mae cwmni Stiwdiobox eto wedi derbyn grant gan y Llywodraeth ar gyfer prosiect "Llwyfan" sy'n gweithio i helpu pobl ifanc i ymddiddori yn y cyfryngau cyfrwng Cymraeg ac i ddysgu sgiliau recordio, golygu a chyhoeddi podlediadau a rhaglenni radio.

Mae'r prosiect yn cyfuno'r elfennau hyn ar blatfform sy'n gwasanaethu dysgwyr 7-11 mlwydd oed gan ganolbwyntio yn y tymor byr ar Ddydd Miwsig Cymru a gofynion y Siarter Iaith. Bwriad y prosiect yw cryfhau ac atgyfnerthu sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg pobl ifanc wrth iddynt ddysgu am sgiliau aml-gyfyngol. Bydd hefyd yn cysylltu gyda chartrefi'r disgyblion drwy ddarparu ystod eang o ddigwyddiadau allgyrsiol sy'n apelio at y teulu cyfan er enghraifft cwis i'r teulu er mwyn estyn ein hiaith i gartrefi ein pobl ifanc ledled y wlad.

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Nod y thema hon yw cefnogi'r camau a amlinellir yn themâu un a dau uchod, er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy greu amodau addas a meithrin amgylchedd lle gall ein haith a'i siaradwyr ffynnu.

Er bod gennym ni dargedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr a'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg, ni chaiff y naill na'r llall eu cyflawni heb seilwaith addas.

9. Y gymuned a'r economi

Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi (CGE) yn nodi'r rhesymau dros ranbartholi datblygiad economaidd Cymru. Rydym yn cydnabod y cyfleoedd unigryw y mae pob rhanbarth yn eu cynnig, ac yn ceisio adeiladu ar y cyfleoedd hynny er mwyn dod â mwy o ffyniant i bawb, gan fynd i'r afael yr un pryd â'r ffactorau sy'n rhwystro hynny.

Ers penodi'r Prif Swyddogion Rhanbarthol a'u timau, rydym wedi ceisio cydweithio'n agosach ac yn fwy effeithiol â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid rhanbarthol. Mae hyn yn dwyn ffrwyth, gan sicrhau gwahaniaethau gweladwy i fusnesau a chymunedau ar draws Cymru. Fel llais y Llywodraeth yn y rhanbarthau a llais y rhanbarthau yn y Llywodraeth, mae'r Prif Swyddogion Rhanbarthol a'u timau'n llywio ac yn dylanwadu ar bolisi a rhaglenni cenedlaethol. Maen nhw hefyd yn targedu cymorth yn y rhanbarthau trwy gronfeydd ysgogi cyfalaf rhanbarthol.

Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn fodel datblygu economaidd sy'n rhoi mwy o ffocws ar y rhanbarthau. Mae hyn yn caniatáu datblygu cryfderau'r rhanbarthau, cefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, gwneud y gorau o gyfleoedd i drechu anghydraddoldeb rhanbarthol a lleol, a chyfrannu at Nodau Llesiant Cymru.

Er bod y pandemig wedi effeithio ar y gwaith o ddatblygu'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, rydym yn parhau â'r gwaith datblygu manwl.

Arfor

Ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2019, mae rhaglen Arfor wedi cynnig sylfaen i gynnal amrywiaeth o brosiectau arloesol yng Ngheredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn. Mae Arfor yn rhoi'r pwyslais ar ddatblygu'r seilwaith economaidd ynghyd â budd i'r Gymraeg.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, bu modd gweithredu nifer o gynlluniau a threialu nifer o ymyraethau. Enghraifft o hyn yw'r ffordd y mae'r rhaglen Llwyddo'n Lleol wedi gweithio i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau a'r hyder i ddechrau busnesau yn eu cymunedau. Yng Ngheredigion, dangosodd pobl ifanc a oedd wedi'i chael yn anodd cael gafael ar gyfalaf i ddechrau busnes gryn ddiddordeb mewn cynlluniau grantiau busnes. Ymyriadau cwbl economaidd oedd y rhain, a lwyddodd i helpu trigolion lleol i aros yn eu cymunedau ac i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn

feunyddiol.

Daeth y peilot Arfor i ben ym Mawrth 2021, a bydd gwerthusiad annibynnol yn amlygu beth sydd wedi gweithio'n dda a pha wersi a ddysgwyd. Manylir ymhellach ar hyn yn yr Adroddiad Blyneddol nesaf.

Mae'r Bwrdd Crwn Economi ac Iaith wedi parhau i drafod – mae'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol y gorllewin, yn ogystal ag ymarferwyr ac arbenigwyr economaidd. Mae'r Bwrdd wedi datblygu nifer o argymhellion i'w gweithredu, gyda'r nod o gryfhau'r economi wledig a sicrhau ffyniant y Gymraeg.

Cynllunio

Rydym yn parhau i gydweithio, dylanwadu a chynghori awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt ddatblygu ac adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Heb os, mae gan y cynlluniau hyn a'r Cynlluniau Datblygu Strategol rôl allweddol i'w chwarae ym maes cynllunio, ac rydym am gefnogi awdurdodau cynllunio i gynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, *Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040*³⁴ ym mis Chwefror 2021. Mae'r Cynllun yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru tan 2040, gan ddylanwadu ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru. Bydd yn helpu i lunio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gan gynghorau ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

Mae cynllunio datblygu lleol yn hollbwysig, yn arbennig yn y cyd-destun presennol, ac rydym yn benderfynol y dylai pob Cynllun Datblygu Strategol roi ystyriaeth i'r Gymraeg.

Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Wrth i'r ansicrwydd o amgylch gadael yr Undeb Ewropeaidd barhau, mae'n anodd cynllunio strwythurau newydd, serch hyn bydd ystyriaethau a phwysigrwydd cynnal cymunedau Cymraeg yn ganolog i unrhyw gynllun newydd.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Bapur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru)³⁵. Mae'r Papur Gwyn yn nodi cynigion i ddisodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol a chynlluniau amaeth-amgylchedd eraill yr UE gydag un cynllun cymorth uniongyrchol ar gyfer ffermio.

Bydd ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr yn briodol am gynhyrchu nwyddau ychwanegol nad ydynt ar gyfer y farchnad (priddoedd gwell, aer glân, dŵr glân, gwell cyflwr cynefin, camau i leihau cynhesu byd-eang).

Ymestynnwyd y Cynllun Taliad Sylfaenol yn 2021 i roi sefydlogrwydd i ffermwyr

³⁴ <https://llyw.cymru/cymru-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040>

³⁵ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddir-papur-gwyn-amaethyddiaeth-cymru>

wrth i ni ddatblygu cefnogaeth a phontio o'r Undeb Ewropeaidd i gyllidebau domestig yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd cynlluniau cymorth gwerth cyfanswm o £16.5m ar gael yn ystod 2020-21 i wella perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol busnesau fferm, ac i alluogi'r sector i gynllunio a pharatoi ar gyfer y dyfodol.

Fforddiadwyedd, Ail Gartrefi a'r Gymraeg

Ers i'r pandemig ddechrau, rydym wedi gweld pryderon cynyddol am sut y gall nifer uchel o ail gartrefi effeithio ar rai o'n cymunedau, ac yn arbennig ar gynaliadwyedd hirdymor cadarnleoedd y Gymraeg. Rhwng effeithiau dinistriol COVID-19, ein hansicrwydd ynghylch effaith lawn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar ein heconomi, a'r heriau niferus y mae ein cymunedau yn eu hwynebu, rydym mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen. Cydnabyddir hefyd bod y materion sy'n gysylltiedig ag ail gartrefi yn rhai cymhleth ac ni cheir un ateb penodol i'r sefyllfa.

Er mwyn dod i wybod rhagor am y maes, dyfarnodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol grant er mwyn i Academi Hywel Teifi graffu ar bolisi cyhoeddus ar ail gartrefi yng Nghymru a Chernyw. O ganlyniad i hyn, ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd Dr Simon Brooks ei adroddiad *Ail Gartrefi: Datblygu Polisiâu newydd yng Nghymru*³⁶. Yng ngoleuni'r diddordeb yn y maes polisi hwn, gofynnodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a fyddai modd i'r ymchwil wneud argymhellion polisi.

Mae adroddiad Dr Brooks yn cwmpasu canfyddiadau adroddiad gan Gyd-bwyllgor Cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn ym maes ail gartrefi, ac mae hyn eto'n cryfhau ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer y maes hwn.

Mae Dr Brooks yn gosod cyd-destun polisi y drafodaeth am ail gartrefi, gan dynnu sylw at y ffaith nad yw ail gartrefi a'r materion cysylltiedig yn ffenomen sy'n effeithio ar Gymru gyfan. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cynhaliwyd gweminar i drafod y cynnwys gyda rhanddeiliaid.

Ers hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau ar y canfyddiadau ac mae gwaith i ddadansoddi'r heriau, sy'n cynnwys materion cynllunio, twristiaeth, trethiant a chynladwyedd ein cymunedau yn mynd rhagddo. Mae'r adroddiad yn cynnwys 12 o argymhellion.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sylw ar effaith ail gartrefi ar ddyfodol cymunedau Cymraeg. Yn hyn o beth mae ei argymhelliad olaf yn nodi'r bwriad i sefydlu comisiwn arbennig i edrych ar ddyfodol y cadarnleoedd.

Bu'r adroddiad hwn yn werthfawr wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg drafft. Bu'r Cynllun yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ddiwedd mis Chwefror. Y nod yw cytuno ar gamau gweithredu cadarn y gellir eu cymryd mewn cysylltiad â ffrydiau gwaith perthnasol eraill fel bod cartrefi

³⁶ <https://llyw.cymru/ail-gartrefi-datblygu-polisiau-newydd>

fforddiadwy ar gael i bobl yn eu cymunedau ac fel bod hynny yn ei dro, yn cefnogi ffyniant ein hiaith yn y cymunedau hynny.

10. Diwylliant a'r Cyfryngau

Gwyddom pa mor bwysig yw hi i sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon yng Nghymru allu cael gafael ar yr gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i roi llwyfan i'n hiaith ac i gynyddu defnydd ohoni. Mae ein diwylliant yn rhan annatod o'n hunaniaeth. Mae gwarchod hyn yn bwysicach fyth yn ystod y cyfnod ansefydlog sydd ohoni.

Mae pob un o'r cyrff a noddir gennym yn y sector diwylliant a chwaraeon wedi ymrwmo i gefnogi ein targed i gynyddu defnydd iaith a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac maent yn rhagweithiol yn eu hymateb i'r polisi. Mae annog a chefnogi aelodau staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg wedi'i wreiddio yn niwylliant gweithredol y cyrff a noddir gennym, ac maent wedi sefydlu cysylltiadau da â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae pwysigrwydd ein perthynas gyda'r sefydliadau a phartneriaid hyn yn allweddol i'n hetifeddiaeth a'n lles. Rydym wedi parhau i gefnogi cynlluniau sydd eisoes ar waith a chynorthwyo sector y celfyddydau yn ystod y pandemig.

Rydym eisiau gweld a chlywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n fwy eang mewn diwylliant poblogaidd ym mhob un o'i gyfryngau celfyddydol ac mewn llenyddiaeth, theatr, ffilm a theledu. Mae'r defnydd o'r Gymraeg gan fodelau rôl fel mabolgampwyr, cerddorion, actorion, a ffigurau a sefydliadau amlwg eraill yn fodd i godi statws y Gymraeg fel iaith fyw.

Diwylliant

Brand Cymru

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o frand Cymru Wales. Yn wir, mae'r iaith yn ysbrydoli elfennau creiddiol o'r brand, er enghraifft y ffont (sydd wedi ennill gwobr aur yng Ngwobrau Dylunio Ewrop).

Byddwn yn parhau i annog busnesau i adlewyrchu gwerthoedd y brand yn eu gwaith. Yn y sector twristiaeth, mae hyn yn cynnwys annog busnesau croeso i sicrhau naws am le cryf yn eu darpariaeth, ac mae defnyddio'r Gymraeg yn ganolog i hyn.

Mae'r Gymraeg wedi cael ei defnyddio'n helaeth yn ystod y flwyddyn dan sylw i hybu Cymru a denu twristiaeth a buddsoddiadau. Fe wnaethom ddefnyddio'r Gymraeg mewn ymgyrchoedd blaenllaw i hyrwyddo Cymru ledled y byd. Yn benodol, trwy'r ymgyrch Gŵyl Dewi, wrth arddangos y gorau o Gymru i'r byd ar draws y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o ŵyl ddigidol, ac fel rhan ganolog o'r ymgyrch gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru yn ystod twrnament Ewro 2020 (a gynhaliwyd yn 2021 yn sgil y pandemig). Mae'r Gymraeg hefyd wedi cael ei defnyddio fel ein prif ymgyrch twristiaeth – Addo – i annog pobl i fod yn gyfrifol tra'n ymweld â Chymru.

Byddwn yn parhau i wneud mwy i roi llwyfan i'r Gymraeg yn ein hymgyrchoedd dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gweithgarwch nodd

Rydym yn parhau gyda'r nod o sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu, mewn digwyddiadau diwylliannol ac yng ngwaith bob dydd ein sefydliadau diwylliannol.

Drwy ein gweithgarwch nodd, rydym yn cydweithio i sicrhau lle amlycach i'r Gymraeg mewn gweithgareddau diwylliannol o bob math, gan gynnwys archwilio'r rhyngberthynas rhwng iaith a diwylliant er mwyn datblygu digwyddiadau, cynhyrchion a gweithgareddau sy'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymraeg unigryw.

Mae ein swyddogion polisi y Gymraeg a Diwylliant yn parhau i bwysleisio a hyrwyddo pwysigrwydd cyfoeth diwylliant cyfrwng Cymraeg ac yn wir pwysigrwydd clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ein gweithgarwch nodd. Mae nifer o gyfleoedd dysgu ar-lein a chysiau cyflwyno iaith byr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi eu teilwra'n arbennig i feysydd penodol ac arbenigol ar gael ac mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn niferoedd sy'n dysgu ac yn defnyddio Cymraeg.

Treftadaeth

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Yn ogystal â pharhau i gynnal gwersi iaith i aelodau staff, mae'r Amgueddfa hefyd yn cynnig cyfleoedd datblygu sgiliau ffurfiol ac anffurfiol yn y gweithle. Maent wedi ehangu eu darpariaeth anffurfiol i staff feithrin hyder ac ymarfer sgiliau ieithyddol, drwy gyflwyno "Cynllun Cyfeillion", sef math o system o fentora ymysg y staff.

Bu llawer o waith datblygu a chynllunio ar y gweill yn ystod 2020-21 i sicrhau bod profiad gwirioneddol ddwyieithog yn cael ei gynnig i ymwelwyr. Erbyn hyn, mae pob un o raglenni cyhoeddus Amgueddfeydd Cymru ar gael yn ddwyieithog. Cyflwynir digwyddiadau, arddangosfeydd, rhaglenni ar gyfer ysgolion a dysgwyr eraill, oll yn Gymraeg a Saesneg.

Mewn ymateb i gyfyngiadau cymdeithasol y pandemig, mae'r Amgueddfa wedi creu a chyflwyno rhaglen ddysgu gyfunol ar gyfer ysgolion (wyneb yn wyneb a digidol) yn fyw o'u hamgueddfeydd, gyda staff yn llywio'r sgwrs, ar gyfer ysgolion ledled Cymru. Yn unol â'r cwricwlwm newydd i Gymru, maent wedi mabwysiadu'r dull amlieithog fel dull safonol wrth ddatblygu cynnwys y sesiynau. Maent wedi cynnwys y Gymraeg hefyd yn eu gweithdai gydag ysgolion cyfrwng Saesneg fel ffordd o normaleiddio'r Gymraeg.

Fel rhan o'r gwaith i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiad yn y sector treftadaeth a'r celfyddydau, mae Amgueddfa Cymru wedi lansio rhaglen "Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru". Mae'n gyfle iddynt arbrofi gyda

ffyrdd newydd o ddatblygu cynnwys digidol yn Gymraeg. Nod y rhaglen yw darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc 16-24 oed er mwyn iddynt gael arbrofi, creu ac arloesi. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyfrif dwyieithog "Bloedd AC" ar Instagram, sy'n cael ei gynnal gan y bobl ifanc.

Crëwyd nifer o gynlluniau newydd arloesol ym maes dylunio dwyieithog hefyd, gan gynnwys y gyfres Amgueddfa Dros Nos / Museum Sleepover. Cafodd y gyfres ei haddasu'n llwyddiannus er mwyn creu profiadau cyfoethog yn Gymraeg i deuluoedd gael mwynhau gyda'i gilydd. Maent hefyd yn darparu sgysiau, teithiau a chysiau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn ogystal â digwyddiadau, gwyliau a dathliadau tymhorol cwbl ddwyieithog.

Mae cydweithio ymysg sefydliadau treftadaeth a diwylliant yn bwysicach fyth eleni, a cheir enghraifft arall o'r arloesedd ar waith yn arddangosfa *Becoming Richard Burton*. Cafodd yr arddangosfa ei thrawsnewid yn arddangosfa ddigidol ddwyieithog yn ystod y pandemig, yn ogystal ag arddangosfa gorfforol pan laciodd y cyfyngiadau. Crëwyd prosiect Celf ar y Cyd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, mewn ymateb creadigol i argyfwng COVID-19.

Fel rhan o'r cydweithio, maent wedi gweithio gyda Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar bartneriaeth "Y Lle Hanes" ar gyfer Eisteddfod AmGen. Mae uchafbwyntiau eraill yn cynnwys lansio *Objects of Comfort*, adnodd digidol dwyieithog newydd a ddatblygwyd gyda'r Gymdeithas Alzheimer's yn benodol i'w defnyddio mewn cartrefi gofal neu leoliadau gofal.

Mae'r cylchgrawn celf digidol dwyieithog, Cynfas, yn rhoi llwyfan i leisiau newydd ac amrywiol ymateb i gasgliadau celf Amgueddfa Cymru gan gynnwys cyfranwyr Cymraeg a golygyddion gwadd sydd wedi gweithio gyda staff yr Amgueddfa a'u cyfoedion i wthio ffiniau dehongliad a dylunio dwyieithog.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n ymddiddori yn hanes a threftadaeth adeiledig Cymru.

Yn ystod 2020-21, parhaodd y Comisiwn i gynorthwyo staff drwy gynnal gwersi iaith Gymraeg ar-lein, gan gynnwys ymwybyddiaeth iaith a chanllawiau ynganu i'w staff. Yn sgil diddordeb staff yn y gwersi, sefydlwyd sesiwn 'Sgwrs dros baned' wythnosol, i hybu defnydd iaith mewn awyrgylch anffurfiol, gan gynnig cyfle i fireinio sgiliau ieithyddol dysgwyr a siaradwyr Cymraeg mwy rhugl.

Mae rhai o uchafbwyntiau gwaith y Comisiwn yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys cyfrannu at Eisteddfod AmGen drwy fod â phresenoldeb cryf yn "Y Lle Hanes". Darparwyd arddangosfeydd, gweithgareddau i blant, a chyfres o fideos byr yn canolbwyntio ar waith y Comisiwn, yn ogystal â chynnal trafodaeth banel i edrych ar ddyfodol manau addoli.

Bu'r Comisiwn hefyd yn cyd-weithio ag S4C ar raglen "Hewlfa Drysor", gan gyfrannu at holl agweddau'r brosiect. Mae'r Comisiwn yn parhau i ddarparu

gwasanaethau ymholiadau ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg ar draws y sector treftadaeth.

Un o'r gwasanaethau ar-lein hyn yw'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru³⁷, sy'n cael ei chynnal ar ran Gweinidogion Cymru gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Fe'i lansiwyd yn 2017, ac mae eisoes wedi dyblu o ran ei maint i gynnwys bron i 700,000 o gofnodion. Mae'n cofnodi enwau, yn ogystal â ffurfiau a sillafiadau amgen, ar gyfer aneddiadau, eiddo, heolydd, llwybrau, afonydd a nodweddion eraill di-ri a ddefnyddiwyd dros y canrifoedd.

Mae'r Rhestr hon yn fwy na chofnod defnyddiol o enwau lleoedd o'r gorffennol, mae hefyd yn adnodd pwysig at y dyfodol. Un o'i phrif amcanion yw gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfoeth yr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru a'u pwysigrwydd fel elfennau o'n treftadaeth ddiwylliannol ehangach. Wrth i ymwybyddiaeth pobl o enwau lleoedd hanesyddol a'u pwysigrwydd gynyddu, byddant heb os yn eu gwerthfawrogi i raddau mwy, ac yn parhau i'w defnyddio nawr ac yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllaw statudol ar ddefnyddio'r rhestr, ar gyfer awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dylai'r cyrff cyhoeddus hynny ystyried y rhestr wrth ystyried enwi ac ailenwi eiddo a lleoedd dan eu gofal.

Yn fwy diweddar, mae'r Comisiwn wedi cynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn asesu llwyddiant y Rhestr ers ei lansio, ac i ystyried sut y gellid ei wella. Bydd y Grŵp yn adrodd yn gynnar yn ystod 2022.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Yn ystod 2020, penderfynodd y Llyfrgell adolygu cynlluniau prosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol (NBA) yng ngoleuni gwersi a ddaeth i'r amlwg yn sgil COVID-19 ac mewn ymgais i leihau costau refeniw yn y dyfodol. Mae newidiadau mawr yn y prosiect yn cynnwys cael gwared ar y rhan fwyaf o'r archif ffisegol (oherwydd ei chyflwr gwael) a dibynnu ar gopiâu wedi'u digideiddio o'r archif, a chreu 'Corneli Clipiau' mewn archifau lleol ledled Cymru, yn hytrach na phedair Canolfan Clipiau ranbarthol fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Bydd hyn yn gwella mynediad lleol at yr NBA yn sylweddol. Mae'r Llyfrgell yn cynllunio presenoldeb yng Nghanolfan y Mileniwm.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol hefyd wedi parhau i gynyddu nifer y deunyddiau Cymraeg sydd ar gael ar-lein yn ystod 2020-21.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Llyfrgell wedi parhau i ddarparu hyfforddiant iaith i staff o dan y cynllun Cymraeg Gwaith.

Cyflwynodd y Llyfrgell weithgareddau gydol y flwyddyn fel rhan o ymgyrch Dydd Miwsig Cymru er mwyn ehangu apêl ei chasgliadau cerddoriaeth. Cynhaliwyd

³⁷ <https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

ymgyrch lwyddiannus i gasglu posteri ac effemera.

Cynhaliwyd rhaglen o ddigwyddiadau fel rhan o Eisteddfod AmGen yn dilyn gohirio Eisteddfod 2020.

Sicrhodd y Llyfrgell Genedlaethol gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau 2020 i ariannu prosiect newydd WiciAddysg o'r enw WiciPics. Mae'r prosiect newydd hwn yn canolbwyntio ar ffotograffau.

Chwaraeon yr Urdd

Mae'r Urdd yn derbyn cyllid gan Chwaraeon Cymru yn flynyddol. Ei nod yw defnyddio pŵer yr iaith Gymraeg i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd a'u cael i gymryd rhan weithredol mewn chwaraeon o'r naill wythnos i'r llall ac yna gydol oes.

Yn sgil y pandemig, mae Chwaraeon Cymru wedi cynyddu ei fuddsoddiad i gefnogi gwaith yr Urdd yn ystod y cyfnod heriol hwn. Daeth cyllid ychwanegol fel rhan o'r Gronfa Gwydnwch Chwaraeon gan roi buddsoddiad ychwanegol i gyllid 2020-21 yr Urdd. Defnyddiwyd y £478,934 i helpu i gadw'r capasiti a'r gallu i gynnal darpariaeth drwy COVID-19 ac i ailafael mewn cyfleoedd chwaraeon pan oedd yn ddiogel i wneud hynny.

Mae'r gyllideb yn parhau i gael ei defnyddio i ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc ledled Cymru gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun yn cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen ar draws amrywiol chwaraeon gan gynnwys pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, gymnasteg ac aml-sgiliau, gan gyfrannu at les cyfannol y plant trwy ddatblygiad Llythrennedd Corfforol.

Mae rhaglen 'Chwaraeon Bach' yr Urdd yn mynd ati i annog teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn awyrgylch hwyliog a chreadigol, gan gyflwyno sgiliau echddygol sylfaenol plant drwy chwarae.

Mae'r Urdd yn hefyd yn parhau i redeg y cynllun cenedlaethol "Chwarae yn Gymraeg". Nod y prosiect yw ymgysylltu ag ysgolion lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith, gan ddefnyddio gweithgarwch corfforol i hyrwyddo Cymraeg achlysurol ar yr iard chwarae tra'n darparu hyfforddiant. Mae'r cynllun wedi ei deilwra ar gyfer disgyblion blynyddoedd 5 a 6.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Yn ystod 2020-21 mae'r Cyngor wedi gweithio tuag at, ac yn wir wedi ennill cydnabyddiaeth swyddogol "Cynnig Cymraeg" y Comisiynydd Iaith. Nod y cynllun yw sicrhau bod yna ddatblygiadau bach a chyson i wasanaethau Cymraeg. Drwy hyrwyddo'r gwasanaethau i'r cyhoedd, mae'n darparu gwell gwasanaethau Cymraeg ac yn cynyddu defnydd ohonynt.

Mae gwersi Cymraeg yr Adran Bortffolio Celfyddydol wedi cynnig cyfleoedd yn y gweithle i staff ddatblygu neu fireinio sgiliau iaith. Mae'r rhain bellach ar waith yn y swyddi sy'n delio'n uniongyrchol ag aelodau'r cyhoedd, gyda siaradwyr Cymraeg

yn un rhan o dair o holl staff yr adran.

Mae partneriaeth yn bodoli rhwng y Cyngor Celfyddydau a Theatr Genedlaethol Cymru i gydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynllunio darpariaeth hefyd. Nod y gwaith yw cynorthwyo'r Ganolfan i gynllunio a darparu cyrsiau priodol at ddefnydd iaith Gwaith i weithwyr llawrydd y celfyddydau.

Y Cyfryngau

Mae gwasanaethau darlledu a chyfryngau Cymraeg yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth gyflawni ein nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym wedi parhau i gyfeirio at bwysigrwydd S4C a Radio Cymru o ran darparu gwasanaethau Cymraeg gyda Llywodraeth y DU, Ofcom â'r BBC ac wedi gweithio gydag S4C a BBC Cymru i gyflawni ein dyheadau ar gyfer yr iaith.

Rydym wedi parhau i godi ystod o feysydd yn gyson gydag Ofcom dros y cyfnod hwn. Mae hyn wedi cynnwys ein hymngysylltiad ag ymgynghoriad '*Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*' Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Pwysleisiodd ein hymateb rôl hollbwysig darlledu effeithiol wrth gynnal a thyfu'r Gymraeg.

Adeg dyfarnu neu adolygu trwyddedau radio gorsafoedd yng Nghymru, rydym yn atgoffa Ofcom a Llywodraeth y DU y dylid rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg. Gofynnwn iddynt wneud hyn drwy bennu yn y cytundeb y bydd nifer penodol o oriau'n cael eu darlledu yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlipiau fideo. Mae hyn yn golygu y dylid gosod amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fel targed wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru.

Rydym yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi i sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg ar wahanol fformatau, er mwyn bodloni'r galw gan wahanol gynulleidfaoedd.

Cyngor Llyfrau Cymru

Mae cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru wedi sicrhau bod modd parhau i gefnogi cyhoeddwyr i gynhyrchu llyfrau a chylchgronau i oedolion a phlant.

Yn ystod 2020-21, cyhoeddwyd dros 200 o lyfrau ac e-lyfrau Cymraeg ac 16 o gylchgronau print a digidol i oedolion a phlant.

Oherwydd COVID-19, bu gofyn am hyblygrwydd yn yr hyn a ddisgwyliid gan y cyhoeddwyr ac yn achos rhai, caniatwyd iddynt gyhoeddi llyfrau llafar am y tro cyntaf ac e-lyfrau o glasuron. Ar y cyfan, unwaith oedd y diwydiant dros yr ansicrwydd cychwynol, bu hon yn flwyddyn lwyddiannus iawn i'r cyhoeddwyr.

Yn ystod y pandemig, datblygwyd llwyfan www.ffolio.cymru yn arbennig i hyrwyddo a gwerthu e-lyfrau o Gymru. Roedd hyn yn ymateb yn uniongyrchol i'r

argyfwng ar y stryd fawr (gan ganiatáu i gwsmeriaid yrru cyfran o'r elw i'w siop leol) ond hefyd yn ateb y galw am adnoddau dysgu-o-gartref i blant a phobl ifanc. Mae bellach yn amod grant bod llyfrau gwreiddiol Cymraeg sy'n derbyn cefnogaeth yn cael eu cyhoeddi fel e-lyfrau ar *ffolio*.

Mae Golwg 360 yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cyngor Llyfrau. Roedd y cyfartaledd misol o ddefnyddwyr gwe tua 180,000, yr argraffiadau trydar dros 900,000 a defnyddwyr Facebook tua 3,500. Gohiriwyd y broses dendro ymhellach oherwydd y pandemig ond aethpwyd ati i hysbysebu'n fuan yn 2021-22.

Mae gwaith wedi parhau i weithredu argymhellion Adroddiad Siwan Rosser ar lyfrau plant a phobl ifanc. Un o'r prif amcanion oedd cynyddu'r gyfradd o lyfrau gwreiddiol o gymharu ag addasiadau sy'n cael eu cyhoeddi. O'r llyfrau a gefnogwyd yn y flwyddyn hon, roedd 56% o'r cyfanswm yn wreiddiol a 69% o'r llyfrau stori a llun.

Daeth amrywiaeth yn bwnc eithriadol bwysig yn ystod y flwyddyn hon ac ymatebodd y Cyngor mewn amryw o ffyrdd o ran hyfforddiant mewnol, newid amodau grant a chynnal arolwg o'r cynnyrch a noddwyd. Mae'r adroddiad yn tanlinellu pa mor bwysig yw gweld pobl o amrywiol gefndiroedd yn ysgrifennu am eu profiadau eu hunain. Mae'n cydnabod yr her benodol wrth ddatblygu awduron Cymraeg eu hiaith o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Parhawyd i gyhoeddi llyfrau i ddysgwyr yn y gyfres Amdani a phrofodd y llyfrau hyn a gwerslyfrau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ymysg gwerthwyr gorau'r cyfnod clo.

Mae'r gwaith i ddenu cyhoeddwy newydd i'r maes yn parhau. Mae Broga wedi cyhoeddi eu llyfrau cyntaf erbyn hyn ac mae O'r Pedwar Gwynt yn cynllunio i fentro i'r maes.

Cafodd gwybodaeth am lyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn eu cyhoeddi ar ffurf Blwyddlyfr a rhestrau penodol i bob ysgol. Dosbarthwyd pecynnau swmpus o oddeutu 200 o lyfrau darllen hamdden Cymraeg i bob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru dan enw #LlyfrDa yn ogystal â rhestr o'r teitlau i'w rhannu ymhlith teuluoedd.

Sicrhawyd fod deunydd dwyieithog ar gyfer ymgyrchoedd Sialens Ddarllen yr Haf ar gael i lyfrgelloedd, ac i ysgolion a llyfrgelloedd yn ogystal â chefnogi cynnwys ar gyfer y wefan Gymraeg.

Ar gyfer Diwrnod y Llyfr cyhoeddwyd llyfr £1 Cymraeg newydd (yn cynnwys fformat Braille).

Darparwyd cystadlaethau hwyliog Darllen Dros Gymru ar ffurf ddigidol i ysgolion cyfrwng Cymraeg oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

Gweithiodd y Cyngor gyda chyhoeddwy yng Nghymru i gynhyrchu a dosbarthu 21 o lyfrau plant ar iechyd meddwl a llesiant ar ffurf print ac yn ddigidol. Rhoddwyd copïau o'r llyfrau i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled Cymru a chrëwyd

adnoddau i gyd-fynd â'r llyfrau fel rhan o'r prosiect.

11. Cymru a'r byd ehangach

Rydym am ddangos i'r byd ein bod yn wlad amlieithog sy'n annog pobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn dathlu bod ein hiaith yn cael ei siarad gan bobl o bob cefndir, tra'n cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau bod gan aelodau o gymunedau ethnig lleiafrifol well cyfle i'w dysgu a'i defnyddio. I'r perwyl hwn, rydym wedi bod yn cyfrannu at waith y Llywodraeth ar ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol³⁸ newydd.

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru maes o law. Y bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Datblygodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol adnoddau i gefnogi'r cwrs blasu 'Croeso i bawb', gan roi cyfleoedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddysgu Cymraeg ar gyrsiau sydd wedi eu teilwra'n arbennig ar eu cyfer.

Dechreuodd y gwaith cyn dyfodiad COVID-19, ond roedd symud y gwersi wyneb yn wyneb ar-lein yn ystod y pandemig yn dipyn o sialens oherwydd diffyg mynediad rhai myfyrwyr at gyfrifiadur ac at y we. Drwy gyfrwng partneriaeth gyda'r Groeso Goch Cymru, llwyddwyd i gael cyllid i ddarparu gliniaduron i hwyluso rhai ffoaduriaid a cheiswyr lloches i barhau i ddysgu Cymraeg.

Mae'r Ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru ynghyd ag eraill, i gynnal cyrsiau 'Croeso i Bawb' ar gyfer myfyrwyr. Yn y Ganolfan, sefydlwyd cronfa arbennig i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer cyrsiau 'Croeso i Bawb'.

Ysgol Gymraeg Llundain

Rydym yn rhoi grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant, y mae nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru.

Patagonia

Mae Prosiect yr Iaith Gymraeg yn parhau i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ym Mhatagonia yn yr Ariannin. Gweinyddir y prosiect drwy'r Cyngor Prydeinig, ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yr Urdd, Cymdeithas Cymru Ariannin a Llywodraeth Cymru.

³⁸ <https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol>

Aeth tri swyddog datblygu i Batagonia ym mis Chwefror 2020, ond yn fuan wedi hynny, cyflwynodd Llywodraeth yr Ariannin fesurau i gyfyngu ar ymlediad COVID-19. Canlyniad hyn oedd cau ysgolion ac atal gwersi i oedolion wyneb yn wyneb, fel a wnaed yng Nghymru. Daeth dwy o'r swyddogion yn ôl i Gymru erbyn mis Mai, ond fe wnaeth y gwaith dysgu barhau ar-lein.

Gan ddefnyddio rhaglenni rhyngweithiol fel Zoom a Skype, mae'r swyddogion datblygu wedi sicrhau bod y gwersi yn parhau; dwy yn cynnal gwersi o Gymru i ddisgyblion ym Mhatagonia, a'r llall draw ym Mhatagonia. Yn ogystal â rhoi gwersi, daeth yn bosibl i gynnig hyfforddiant i hwyluswyr eraill ar sut i gyflwyno gwersi ar-lein yn llwyddiannus.

Mae effaith COVID-19 ar y gymuned leol ym Mhatagonia wedi bod yn sylweddol ond diolch i ddyfeisgarwch y swyddogion datblygu yn addasu gwersi, yn arloesi ac ymgysylltu â'r gymuned ym Mhatagonia ar-lein, mae amryw o ffyrdd newydd o ddysgu bellach ar gael i bobl Patagonia.

Mae teuluoedd o gefndiroedd nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi bod yn ymwneud â siaradwyr Cymraeg ledled y rhanbarth, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a gweddill y byd. Yn 2019, fe wnaeth dros 1,200 o unigolion fynychu cyrsiau Cymraeg ym Mhatagonia. Yn sgil y pandemig a symud y gwersi i ddarpariaeth ar-lein, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd a oedd yn ymuno â dosbarthiadau, er eu bod yn ymuno ar-lein, i 2,000. Bydd y dyfeisgarwch hwn yn parhau yn rhan o arlwy dysgu Cymraeg Patagonia yn y dyfodol.

Cysylltiadau Rhyngwladol

Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol

Mae'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) yn rhwydwaith Ewrop gyfan sy'n gweithio ym maes polisi a chynllunio ieithyddol ar ran ieithoedd Cyfansoddiadol, Rhanbarthol a Gwladwriaethol Bach (CRSS) ledled Ewrop. Mae aelodau'r NPLD yn cynnwys llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â phrifysgolion a chymdeithasau. Roedd Cymru yn Is-gadeirydd y Rhwydwaith yn ystod y cyfnod adrodd.

Prif nod yr NPLD yw codi ymwybyddiaeth ar lefel Ewropeaidd o bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol. Nod arall yw hwyluso'r broses o gyfnewid arferion gorau ymysg llywodraethau, gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr, ymchwilwyr ac arbenigwyr o bob rhan o Ewrop.

Yn sgil COVID-19, cyfarfod ar-lein wnaeth y Rhwydwaith yn ystod y cyfnod adrodd, a hynny er mwyn rhannu arfer da a phrofiadau yn gysylltiedig â'r heriau a'r cyfleoedd a ddaeth yn sgil y pandemig.

Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

Ni sy'n cadeirio grŵp gwaith ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Mae sefyllfa yr holl ieithoedd a gynrychiolir gan y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn amrywio'n fawr (Cymraeg, Cernyweg, Gaeleg yr

Alban, Sgoteg, Manaweg, Sgoteg Wlster, Gwyddeleg, Guernésiais a Jèrriais) ond mae ganddynt lawer iawn yn gyffredin hefyd. Rydym wedi parhau i fanteisio ar y fforwm hwn i drafod, i rannu arferion da ac arbenigedd gyda phobl o wahanol gefndiroedd.

Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i deithio ar draws yr aelod-wladwriaethau i ddysgu ac i rannu arferion da ond daeth yr holl deithio i ben yn sgil y pandemig. Yn lle hynny, cyfarfu'r Grŵp ar-lein gan wahodd cyfres o siaradwyr gwadd i ysgogi trafodaethau.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hefyd, cyhoeddodd y Grŵp gyfres o adnoddau defnyddiol ar ei gwefan, gan eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, i dynnu sylw eang at yr ieithoedd yn ystod cyfnod pan oedd nifer cynyddol o bobl yn dewis dysgu ieithoedd ar-lein. Mae'r adnoddau newydd a grëwyd gan y Grŵp yn cynnwys:

Geirfaoedd thematig yn holl ieithoedd y Cyngor.
Ffeithlun i grynhoi sefyllfa'r holl ieithoedd.
Cyfres o adnoddau i gefnogi pobl i ddysgu'r ieithoedd.
Rhestr wedi'i diweddarau o ganeuon yn yr holl ieithoedd ar Spotify.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu'r grŵp hefyd yn gwneud gwaith i drefnu e-weminar ym maes ieithoedd a'r blynyddoedd cynnar. Cynhaliwyd yr e-weminar fis Mehefin 2021 fel rhan o'r paratodau ar gyfer Uwch-gynhadledd y Cyngor yng Nghymru fis Tachwedd 2022.

Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyfrannodd swyddogion Llywodraeth Cymru i waith UNESCO wrth iddynt baratoi ar gyfer Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i godi proffil y Gymraeg a rhannu arferion da gydag eraill ledled y byd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn "genedl sy'n gyfrifol ar lefel byd eang".

Digwyddiadau rhyngwladol

Ers ddechrau'r pandemig, mae'r cyfleoedd i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ar lefel rhyngwladol wedi bod yn fwy cyfyngedig na'r blynyddoedd blaenorol, nid yn unig oherwydd y cyfyngiadau byd-eang, ond hefyd oherwydd gorfod adleoli adnoddau staffio o fewn yr Adran Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach, yma yng Nghymru ac hefyd yn ein timau dramor.

Serch hynny, mae'r gwaith digidol o hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg wedi parhau. Dyma rai enghreifftiau o ddigwyddiadau neu adnoddau sydd wedi'u hyrwyddo yn ystod 2020-21 ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol:

- Dydd Miwsig Cymru
- Diwrnod Ieithoedd Ewrop
- Gŵyl 2021 Festival
- Eisteddfod Amgen

- Ap / gwefan AM

Dyma rai enghreifftiau o waith a wnaed gan ein timau rhyngwladol i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg:

Iwerddon

Ym mis Mawrth 2021, lansiodd y Prif Weinidog Ddatganiad a Rennir a Chynllun Gweithredu ar y Cyd gyda Llywodraeth Iwerddon. Mae iaith yn rhan allweddol o un o'r chwe maes cydweithio yn y Datganiad a Rennir ac mae'r ddwy Lywodraeth wedi ymrwymo i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a Gwyddeleg.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr Urdd a TG Lurgan wedi mynd o nerth i nerth ers ei lansio ym mis Ionawr 2021. Rhyddhawyd eu fideo cerddoriaeth cyntaf erioed yn y Gymraeg a Gwyddeleg; mae 'Golau'n Dallu / Dallta as na Solise' yn addasiad o'r gân boblogaidd 'Blinding Lights' gan The Weeknd. O fewn mis i'w ryddhau, roedd y fideo wedi cael ei wyllo dros 100,000 o weithiau, ac agorwyd y broses gofrestru ar gyfer yr ail gyd-gynhyrchiad.

Gogledd America

Cynhaliwyd cyfarfod ar-lein rhwng yr Urdd ac ieuenctid yn Alabama i drafod y Gymraeg, ac fe'i hyrwyddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd. Rhoddodd Llywodraeth Cymru yr Urdd mewn cysylltiad â chôr Efengyl UAB, a ryddhaodd recordiad o berfformiad ar-lein ar y cyd o gân efengyl Gymraeg.

Cynhaliwyd FOCUS Wales at SXSW 2021 ar-lein ac roedd yn cynnwys rhai artistiaid Cymraeg. Roedd Llywodraeth Cymru yn mynd i noddi gŵyl 2020 ond cafodd ei chanslo.

Hyrwyddodd Llywodraeth Cymru y ffilm Gymraeg "The Feast" ar y cyfryngau cymdeithasol pan gafodd ei rhyddhau ym mis Mawrth 2020 (cafwyd darllediad gyda chynulleidfya yn ddiweddarach ym mis Tachwedd 2021 pan oedd yn ddiogel gwneud hynny).

Noddodd Llywodraeth Cymru ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi Cymdeithas Gogledd America ar-lein – dathliad o bopeth am Gymru, gan gynnwys perfformiadau a chystadlaethau Gymraeg.

Mae tîm Gogledd America wedi defnyddio eu platfform cyfathrebu ar-lein i hyrwyddo neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, gan gydweithio â gwahanol sefydliadau yn yr Unol Daleithiau, ac maent hefyd wedi tynnu sylw at straeon Cymraeg yn y wasg yn yr Unol Daleithiau, megis erthygl yn yr Atlanta Review ar farddoniaeth Gymraeg. Maent hefyd wedi cydweithio ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda Llysgenhadaeth Prydain yn Washington DC a swyddfeydd Conswliaid eraill i dynnu sylw at enwau lleoedd Cymraeg i hyrwyddo'r iaith i rwydwaith ehangach.

Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd

Ers 1922 yn ddi-dor, mae'r broses flynyddol ar Fai 18 o anfon neges ar ran pobl

ifanc Cymru i bobl ifanc yng ngweddill y byd wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol.

Roedd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn 2020 yn galw ar bobl ifanc ledled y byd i sicrhau nad yw gwersi a ddysgwyd gan argyfwng COVID-19 yn cael eu hanghofio a gochel rhag dychwelyd i rai o ffyrdd hunanol, dinistriol y gorffennol. Galwodd 55,000 o aelodau'r mudiad cenedlaethol ar arweinwyr gwledydd y G20 i arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â'r materion hynny. Ar ran aelodau'r mudiad, fe ysgrifennodd Prif Weithredwr yr Urdd, Siân Lewis, at Brif Weinidog y DU, Arlywydd UDA, Arlywydd Rwsia, a phob arweinydd G20 arall.

Cyrhaeddodd y neges dros 37 miliwn o bobl ar draws y byd, 9 miliwn dros Twitter, 5 miliwn ar Instagram a 100,000 ar gyfrif Facebook yr Urdd. Mae'r neges yn parhau i fynd o nerth i nerth bob blwyddyn ac fe'i darlledwyd mewn dros ddeugain o ieithoedd.

Digwyddiadau mawr

Bu effaith sylweddol ar ein gwaith yn y maes digwyddiadau mawr yn ystod 2020-21 oherwydd COVID-19. Gan na chaniatawyd unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus oherwydd y mesurau a ddaeth i rym ledled y DU ym mis Mawrth 2020, bu cyfyngiadau ar gynulleidfaoedd cyhoeddus ac felly nid oedd modd cynnal digwyddiadau a gefnogwyd gan gyllid digwyddiadau arferol Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i'r heriau a oedd yn wynebu'r diwydiant o ganlyniad i'r mesurau iechyd angenrheidiol hyn, lansiodd Llywodraeth Cymru Gronfa Adfer Diwylliannol a ddarparodd gymorth ariannol i fusnesau cymwys o fis Ebrill 2020 hyd at fis Medi 2021.

Cefnogodd y gronfa dros 200 o fusnesau yn y diwydiant digwyddiadau gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, Yr Urdd a Thafwyl.

Mae'n ofynnol i bawb sy'n derbyn cyllid gan y Gronfa hon i ymrwymo i egwyddorion 'Contract Diwylliannol' sy'n cynnwys ymrwymiad i hyrwyddo a diogelu ein diwylliant bywiog, ein treftadaeth a'n hiaith Gymraeg.

Twristiaeth a marchnata

Yn y maes hwn, mae disgwyl i ni arwain drwy esiampl, gan hybu'r Gymraeg ar lwyfan byd-eang a chroesawu manteision bod yn wlad ddwyieithog. Gwnawn hyn drwy ddylanwadu ar ein holl ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu fel bod ein statws fel gwlad ddwyieithog yn cael ei weld fel elfen werthu unigryw yn y byd ehangach.

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog a gweledol o'n hymgyrchoedd i hybu Cymru ar lwyfan byd-eang, a'r neges am ddwyieithrwydd Cymru hefyd yn cael ei rhannu ar blatfformau perthnasol. Mae hyn i'w weld yn glir ar wefan Wales.com – prif borth digidol Cymru – sy'n cynnwys erthyglau penodol ar y Gymraeg a Chymru ddwyieithog. Mae'r neges hon hefyd yn frith drwy lawer o'r cynnwys yr ydym yn ei ddefnyddio ar draws ein hamryw wefannau.

Er bod gwaith marchnata Cymru wedi cael ei gyfyngu gan COVID-19, bydd unrhyw ymgyrchoedd yn ystod y cyfnod adfer yn hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg, a thwristiaeth gymunedol gyda phwyslais diwylliannol lle bo hynny'n briodol.

12. Technoleg ddigidol

Fis Rhagfyr 2020, fe wnaethon ni gyhoeddi Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg: adroddiad cynnydd 2020/39. Mae'r adroddiad yn manylu ar ein cynnydd yn y maes ac rydym yn crynhoi hyn isod.

Mae'r gwaith o weithredu pecynnau gwaith y Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn parhau. Erbyn Mawrth 2021, roeddem wrthi'n gweithredu neu wedi cwblhau 22 o'r pecynnau gwaith o'r cyfanswm o 27. Roedd cynlluniau ar y gweill i weithredu'r lleill.

Er mwyn 'deall' Cymraeg, llafar mae Prifysgol Bangor wedi creu modelau acwstig ac ieithyddol er mwyn adnabod y 2,500 o eiriau Cymraeg a'r 500 gair Saesneg sy'n cael eu llefaru amlaf yn y Gymraeg. Dyma osod seiliau cadarn i allu trawsgrifio'r Gymraeg.

Llwyddodd Prifysgol Bangor hefyd i wella a rhyddhau fersiwn newydd o'r rhestr eiriau Cymraeg Hunspell, rhyddhau Tagiwr Rhannau Ymadrodd Niwral ac Offer Trin Testun newydd. Aethant ati i wneud gwelliannau a diweddariadau i Cysgliad, a'i ryddhau yn rhad ac am ddim i bawb heblaw am weithleoedd gyda mwy na deg o staff. Roedd hyn yn hanfodol bwysig ar adeg pan roedd plant yn dysgu o adref yn ystod cyfnodau clo. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd 6,198 o bobl wedi ei lawrlwytho.

Hefyd, datblygodd Prifysgol Caerdydd fewnblaniadau geiriau trosieithol a fydd yn gwella'r ffordd y mae cyfrifiaduron yn gallu deall ystyr testun Cymraeg, a thrwy hynny ddeall bwriad y defnyddiwr.

Datblygu a buddsoddi mewn TG

Ein nod yw archwilio cyfleoedd i fuddsoddi, i gydweithredu ac i rannu adnoddau a thechnegau er mwyn cefnogi ein seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron, technoleg deallusrwydd artiffisial (AI), adnabod llais, ac ati) er mwyn iddi fod yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ar ddyfeisiau electronig.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r gwaith o asesu sut orau i ddatblygu seilwaith ieithyddol a thechnolegol y Gymraeg, yn parhau. Yng nghyd-destun cynorthwyydd personol medrus Macsen Prifysgol Bangor a gwaith ein Gwasanaeth Cyfieithu, bu rhagor o ddatblygu ym myd cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron, deallusrwydd artiffisial ac adnabod lleferydd Cymraeg.

³⁹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/cynllun-gweithredu-technoleg-cymraeg-adroddiad-cynnydd-2020.pdf>

Datblygiadau technoleg at ddefnydd cymdeithasol

Bu'n rhaid i glybiau codio symud ar-lein eleni, gyda chefnogaeth Cracio'r Cod Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid.

O safbwynt nodweddion daearyddol amlwg, gall enwau Cymraeg fod yn allweddol wrth i ni farchnata Cymru i dwristiaid o bedwar ban byd. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym wedi bod yn hyrwyddo rôl y Gymraeg mewn datblygiadau technolegol fel mapiau ar-lein, gan barhau i ariannu gwaith ar ddatblygu openstreetmap.cymru.

Wikipedia

Rhoddwyd grant i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer prosiect o'r enw #Wicipics yn canolbwyntio ar dorfoli delweddau trwydded agored o adeiladau hanesyddol Cymru. Cafodd y pandemig effaith ar y gallu i gyflawni rhai o'r targedau, e.e. nid oedd digwyddiadau cymunedol ac ysgol yn bosib. Ond, cynhaliwyd digwyddiadau ar-lein ac o bell drwy dasgau torfoli. Cafodd dros 1,800 o ddelweddau eu rhannu. O fewn mis, cafodd erthyglau Wikipedia a oedd yn cynnwys y delweddau hyn eu gweld 68,000 o weithiau mewn wyth iaith.

13. Seilwaith ieithyddol

Mae *Cymraeg 2050* yn cynnwys ymrwymiad i barhau i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg er mwyn hwyluso'r daith at filiwn o siaradwyr ac i gynyddu defnydd iaith.

'Seilwaith ieithyddol' yw'r pethau sy'n ein helpu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd: geiriaduron, adnoddau terminoleg, corpora, a gwaith ymchwil a safoni.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu nifer o brosiectau yn y maes yn uniongyrchol, gan gynnwys Geiriadur Prifysgol Cymru, a'r Termiadur Addysg. Mae nifer o'r prif adnoddau eraill hefyd yn derbyn arian cyhoeddus drwy wahanol asiantaethau.

Fe lansion ni ymgynghoriad ar bolisi drafft ar gyfer seilwaith ieithyddol ym mis Mawrth 2021. Daeth hwnnw i ben ar 6 Gorffennaf 2021. Rydym eisiau ei gwneud hi'n haws i bobl o bob cefndir ddefnyddio'r Gymraeg – yn weithleoedd, yn blant ysgol, yn athrawon, yn siaradwyr newydd neu'n siaradwyr rheolaidd – drwy wneud yn siŵr eu bod yn gwybod lle i droi am adnoddau neu ffynonellau ieithyddol. Yn hynny o beth, roedd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori yn dilyn y syniad o roi'r defnyddiwr yn gyntaf, a'i gwneud yn hawdd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg drwy greu un gwefan iddyn nhw fynd i gael atebion.

Cyhoeddodd grynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 28 Medi 2021.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, cymerwyd camau hefyd i sefydlu panel i fynd i'r afael â materion orgraffyddol, ac mae'r panel hwnnw wedi bod yn cyfarfod o dan gadeiryddiaeth Dr Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd. Drwy gynnwys rhai o'r prif ddarparwyr adnoddau seilwaith yn y gwaith, y gobaith yw y bydd hyn yn

gam tuag at sicrhau rhagor o gysondeb er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr fynd ati i ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.

Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp, dan gadeiryddiaeth yr Athro Delyth Prys o Brifysgol Bangor, i safoni termau cydraddoldeb ym maes hil ac ethnigrwydd – gwnaed hyn er mwyn ymateb i fwch yn y ddarpariaeth dermau yn y maes.

Dros y cyfnod nesaf, byddwn yn cyflwyno cynigion polisi ar gyfer cydlynu'r gwahanol elfennau'n fwy effeithiol a darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr.

Cyfieithu

Er mwyn cefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd i fodloni'r galw am eu gwasanaethau, rydym yn parhau i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Dyma'r gymdeithas broffesiynol sy'n cynnal, yn sicrhau ac yn hyrwyddo safonau cyfieithu proffesiynol, gan wella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Yn ystod cyfnod y pandemig, mae'r Gymdeithas wedi bod yn ganolog i gynnal e-gymuned o gyfieithwyr, gan eirioli ar eu rhan, yn ystod cyfnod pan oedd cyfieithwyr o bob math yn mynd drwy gyfnod anodd. Cyfeiriwyd yr aelodau'n rheolaidd at ffynonellau gwybodaeth a chysylltiadau a allai fod yn ddefnyddiol iddynt, gan gynnwys gwybodaeth am y cymorth ariannol a'r cymorth busnes a oedd ar gael, yn ogystal â'r wybodaeth gyffredinol am y rheolau a'r rheoliadau oedd yn gysylltiedig ag ystod eang o faterion yn ymwneud â COVID-19. Tynnwyd sylw hefyd at wybodaeth a fyddai o fudd i les ac iechyd aelodau.

14. Cynllunio ieithyddol

Er mwyn sicrhau cynllunio ieithyddol effeithiol, mae angen dealltwriaeth o wahanol amgylchiadau mewn gwahanol rannau o Gymru a chynllunio ymyriadau gofalus.

Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050

Uwch swyddogion o bob cwr o'r Llywodraeth yw aelodau Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050. Diben y Bwrdd yw craffu ar gynnydd, cynnig cyngor ac arweiniad a sicrwydd wrth weithredu *Cymraeg 2050*. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Bwrdd gyfarfod bob tymor i drafod materion megis prif-ffrydio'r strategaeth ar draws gwaith y Llywodraeth, ystyried risgiau, arfer da a materion sy'n codi a allai effeithio ar *Cymraeg 2050*.

Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Sefydlwyd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg o dan adran 149 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Cyngor wedi parhau i gyfarfod o leiaf unwaith y tymor i roi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â *Cymraeg 2050* – a hynny ar-lein yn sgil y pandemig. Bu'n cynghori'r Gweinidog ar amrywiol faterion sy'n effeithio ar faes polisi y Gymraeg, er enghraifft y maes ail gartrefi a defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

Bu sawl is-grŵp i'r Cyngor Partneriaeth yn gweithio gydol y flwyddyn i'n cefnogi hefyd er enghraifft ym maes yr economi, addysg a defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

Gweithio gydag awdurdodau lleol

Rydym yn parhau i weithio yn agos gydag awdurdodau lleol i gefnogi eu hymdrechion i adeiladu capasiti i gynllunio ar gyfer y Gymraeg, gan eu cefnogi yn y gwaith o weithredu a chyd-gordio strategaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg, Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

15. Gwerthuso ac ymchwil

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddwyd *Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig* (Prosiect Cefnogi Arferion Iaith, Cymraeg Campus, a Cymraeg Bob Dydd). Mae'r adroddiad yn cynnig asesiad o sut mae'r rhaglenni unigol wedi eu gweithredu, ynghyd ag argymhellion ynghylch datblygiadau i'r dyfodol i gefnogi defnydd anffurfiol y Gymraeg ymhlith disgyblion ysgol.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd *Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer Ymarferwyr Addysg*. Mae'r gwerthusiad hwn yn archwilio sut, ac i ba raddau, y mae'r Cynllun Sabothol yn cyfrannu at newid yn y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i defnyddio fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion; mae hefyd yn asesu cyfraniad y Cynllun Sabothol i ddarpariaeth datblygiad proffesiynol iaith Gymraeg neu gyfrwng Cymraeg i ymarferwyr.

Yn sgil canslo'r broses dendro ar gyfer adolygiad o'r Cynllun Grantiau i Hyrwyddo a Hwyluso Defnydd y Gymraeg fis Mawrth 2020 oherwydd COVID-19, dechreuwyd ar y broses o ddatblygu manyleb ddiwygiedig ar gyfer yr adolygiad.

Cyflawnwyd gwaith ymchwil ar gyfer dau brosiect ar addysg drochi:

- ymarfer mapio o'r ddarpariaeth addysg drochi yng Nghymru, ac
- adolygiad cwmpasu cyflym o'r llenyddiaeth ynghylch addysg drochi a darpariaeth ieithyddol ddwys.

Parhaodd y gwaith o feithrin capasiti ymchwil at y dyfodol dwy ddarparu cefnogaeth i ysgoloriaethau doethurol a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC); mae pedair o'r ysgoloriaethau hyn yn archwilio agweddau naill ai ar y Gymraeg neu ieithoedd mewn addysg. Drwy gydol y flwyddyn datblygwyd ymhellach y gwaith o brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws gweithgaredd ymchwil y Llywodraeth.

Archwilio ffyrdd o ychwanegu at ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes

Cynhaliwyd [Arolwg Defnydd Iaith](#) rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2020, ac mae detholiad o'r prif ganfyddiadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ein bwriad yw cyhoeddi gweddill y canfyddiadau am ddefnydd siaradwyr Cymraeg o'r

iaith, gan gynnwys yn y gymuned a'r gweithle, yn ystod 2022.

Er mwyn cael darlun o effaith y pandemig ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, cynhaliom [arolwg o effaith y pandemig ar grwpiau cymunedol Cymraeg](#). Mae prif ganfyddiadau'r gwaith hwnnw, a'r argymhellion ynghlwm â'r gwaith, wedi eu cynnwys yn ein hadran sy'n trafod Thema 2 *Cymraeg 2050* yr adroddiad hwn.

Rydym hefyd wedi bod yn cyhoeddi amcangyfrifon o allu'r boblogaeth yn y Gymraeg o [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#) y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ein gwefan bob chwarter. Mae'n bwysig nodi bod y ffordd y caiff yr arolwg ei weinyddu wedi gorfod newid yn sgil y pandemig, felly mae'n rhaid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli'r data ers mis Mawrth 2020.

Casgliad

Mae'r byd o'n cwmpas wedi newid yn sylweddol oherwydd y pandemig, ac mae'r adroddiad hwn yn gyfle i ni gyfeirio at ein hymateb ni a'n partneriaid i COVID-19 yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21. Ac mae'n braf cael nodi bod llawer o'r gwaith arloesol yn ystod y cyfnod wedi dod yn rhan o'n gwaith beunyddiol ni erbyn.

Mae ail Raglen Waith Cymraeg 2050 (ar gyfer 2021-26), a gyhoeddwyd ers diwedd cyfnod adrodd yr Adroddiad Blynnyddol hwn, yn ymateb i effaith COVID-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd ar ein bywydau. Mae'r rhaglen hefyd yn amlinellu ein cynlluniau ni i barhau i weithio i gynyddu nifer y siaradwyr, cynyddu defnydd iaith a gwella'r seilwaith sy'n sylfaen i'r cyfan. Wrth i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 gael eu rhyddhau maes o law, byddwn yn mynd ati i adolygu'n cynlluniau a'r taflwybr tuag at y miliwn yn ôl y galw. Ond yr un fydd ein nod – gweithio gyda'n gilydd, i gyrraedd y miliwn a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.